# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 19EG MAI, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

**01286 678 878**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 11 Mai 2016)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
E. Caerwyn Roberts
Sedd Wag - Plaid Cymru

Annwen Daniels
Linda Morgan
Gruffydd Williams

Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Eurig Wyn

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell
Louise Hughes

Nigel Pickavance
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Endaf Cooke

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2016/17

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd am 2016/17

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12.01.16 fel rhai cywir .

## 7. TOILEDAU CYHOEDDUS — 11 - 16

**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried yr adroddiad, a gwneud argymhelliad ar Gynllun i geisio cadw toiledau cyhoeddus, sydd dan fygythiad o gau oherwydd y toriadau, yn agored a gweithredol i'r dyfodol.

**8. ADOLYGIAD O DREFNIADAU CASGLU GWASTRAFF GWYRDD Y CYNGOR** 17 - 25

**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried yr adroddiad a gwneud argymhellion ar y drefn awgrymir ar gyfer codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd

**9. STRATEGAETH "MWY NA LLYFRAU" : GWASANAETH LLYFRGELL CYNGOR GWYNEDD** 26 - 43

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas**

Craffu'r broses sydd wedi ei dilyn ar gyfer llunio'r strategaeth.

**10. DIGARTREFEDD - YMCHWILIAD CRAFFU** 44 - 57

**Aelod Cabinet : Cynghorydd Ioan Thomas**

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

**11. CYTUNDEBAU ADRAN 106** 58 - 64

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried canfyddiadau yr is-grwp ar bwrpas ac ehangder Cytundebau 106

**12. CLUDIANT ADDYSG ÔL -16 - YMCHWILIAD CRAFFU** 65 - 69

**Aelod Cabinet : Cynghoryddr Gareth Thomas**

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD MAWRTH, 12 IONAWR 2016

**YN BRESENNOL:** E. Caerwyn Roberts (Is-gadeirydd)

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Louise Hughes, Eric M. Jones, Nigel Pickavance, Mike Stevens a Gruffydd Williams

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr - Democratiaeth a Chyflawni) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Cynghorydd Ioan Thomas - Aelod Cabinet Tai ac Arwel W Owen (Uwch Reolwr Tai)

b) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd, Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Steffan Jones (Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu).

c) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros Dro), Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd) a Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol - Gwarchod y Cyhoedd)

DRAFT

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Angela Russell, Glyn Thomas a Dafydd Meurig Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio (ar gyfer eitem 8 )

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2015 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni ynglŷn â threfn sydd wedi ei sefydlu, i wella'r cyswllt a'r ddeialog rhwng y pwyllgorau craffu unigol a'r Cabinet i adnabod dilyniant i

waith craffu. Fel rhan o arbrawf i gyflwyno trefn newydd, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau adroddiad yn nodi argymhellion o gyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r Cabinet a nodwyd bod trafodaeth gyhoeddus, agored a gonest wedi ei chynnal.

Cyflwynwyd tair eitem at sylw'r Cabinet

- Yr Iaith Gymraeg a'r drefn Cynllunio - yr Aelod Cabinet yn croesawu mewnbwn yr Aelodau i'r broses o greu'r Canllaw Polisi Cynllunio newydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol

- Cytundebau Adran 106 - yr Aelod Cabinet eto yn croesawu'r argymhelliad i weithgor bychan drafod opsiynau posib i'r dyfodol.

- Cludiant Addysg Ôl-16 - derbyniwyd ymateb positif gan yr Aelod Cabinet a nodwyd y byddai'n ail ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu i gadarnhau pa argymhellion sydd wedi eu gwireddu er mwyn eu gweithredu o Fedi 2016.

Nodwyd bod yr arbrawf wedi sicrhau ymrwymiad cyhoeddus yr Aelodau Cabinet i weithredu, a'r cam nesaf fydd bwydo'r camau gweithredu a'r amserlen i raglen waith y Pwyllgor Craffu er mwyn derbyn sicrwydd bod gweithredu wedi digwydd.

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Yng nghyd-destun Cynllunio a'r Iaith Gymraeg gwnaed awgrym i ystyried dechrau gweithredu ar Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ac i'r Cyngor ddiweddaru eu polisïau. Awgrymwyd amlygu'r pryderon am ganllawiau gwell yn lleol i'r Adran Gynllunio
- Yng nghyd-destun Cludiant Addysg Ôl -16, amlygwyd pryder bod yr ymateb wedi llusgo a bod rhaid pwysleisio gweithrediad buan i'r argymhellion er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn eu lle erbyn Medi 2016. Cynigiwyd ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i bwysleisio hyn gan dynnu sylw bod yr argymhellion wedi eu cyflwyno 02.02.2014.

**PENDERFYNWYD**

**a) Derbyn yr adroddiad a chytuno i barhau gyda'r drefn o gyflwyno argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r Cabinet er mwyn gwella'r cyswllt a'r deialog.**
**b) Ysgrifennu at Aelod Cabinet Addysg i bwysleisio'r angen am weithrediad buan ar yr argymhellion i wella gwasanaeth cludiant addysg ôl -16.**

**6. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I ARGYFWNG Y FFOADURIAID**

a) Ar gais aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, yn amlinellu trefniadau'r Cyngor i ymateb i argyfwng Ffoaduriaid o Syria. Nodwyd yn gryno bod gofyn i Wynedd dderbyn hyd at 40 o bobl dros gyfnod o 4 mlynedd a hanner gyda'r bwriad o dderbyn 10 yn y lle cyntaf er mwyn dysgu o'r broses.

Amlygwyd bod Gwynedd wedi cynnig cefnogaeth ers y dechrau ac erbyn hyn yn rhan o Wedd2. Gyda niferoedd rhestrau aros am dai cymdeithasol yn uchel, byddai'r ffoaduriaid yn derbyn eiddo o fewn y sector breifat ac yn derbyn gwarchodaeth ddyngarol llawn am 5 mlynedd gyda hawl i waith a budd daliadau. Derbyniwyd cadarnhad gan y Swyddfa Gartref bod pecyn ariannol ar gael i estyn

cymorth ac i hwyluso integreiddio o fewn y gymuned a bod yr ymrwymiad ariannol yma (gan Lywodraeth San Steffan) am gyfnod o 5 mlynedd.

O ran amserlen, adroddwyd bod chwe awdurdod yn ystyried y posibilrwydd o gytuno ar un dyddiad ar gyfer derbyn ffoaduriaid ac yn y broses o gyflwyno amlinelliad i'r Swyddfa Gartref o'r llety sydd ar gael. Yn y cyfamser, bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu'r ceisiadau ac yn gwneud asesiadau trylwyr er mwyn ymateb i'r hyn sydd ar gael.

Talwyd teyrnged i drigolion a mudiadau gwirfoddol Gwynedd yn eu hymgyrchoedd arbennig i gefnogi ffoaduriaid a nodwyd bod bwriad cynnal trafodaethau gyda mudiadau gwirfoddol er mwyn cydweithio i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd. Bydd bwriad hefyd cysylltu gyda 4 awdurdod arall o Gymru sydd eisoes wedi derbyn ffoaduriaid er mwyn dysgu a deall rhai agweddau ymarferol.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r 'cyfnod pum mlynedd' o gefnogaeth, nodwyd mai integreiddio'r ffoaduriaid i gymdeithas yw'r brif nôd a bod hawl gan yr unigolion i ddychwelyd neu aros ar ôl y cyfnod. Bydd adnodd ariannol ar gael am bum mlynedd, ond y gobaith yw y bydd yr unigolion erbyn hynny, wedi gwneud cyfraniad llawn i gymdeithas. Nodwyd mai'r tebygolrwydd yw mai teuluoedd fydd y rhain yn bennaf.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r math o adnodd oedd yn cael ei gynnig gan y Llywodraeth, nodwyd bod iechyd ac addysg plant yn cael ei gyfarch a bod budd-daliadau uwchlaw hyn. Bydd gofyn bod yn ofalus a gwyliadwrus o'r angen i weithio o fewn y pecyn ariannol a'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw llety addas. Ychwanegwyd bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gydag Iechyd. Nodwyd bod trafodaethau gyda cholegau a darpariaethau cyfathrebu wedi cymryd lle.

d) Mewn ymateb pellach i gwestiwn ynglŷn ag ystyried rhannu'r ffoaduriaid ar draws Gwynedd yn hytrach na lleoli'r ffoaduriaid yng Ngogledd y Sir, nodwyd bod y 10 cyntaf yn debygol o gael eu gosod yn y gogledd, ond ni fydd rhannau eraill o'r sir yn cael eu diystyru. Nodwyd bod y profiad yn cael ei werthuso gydag ystyriaeth yn cael ei roi i adnabod cyfleoedd addysg, cyflogaeth a chymuned Syriaid

**PENDERFYNWYD: Diolch am yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor yn**

- Cytuno a derbyn yr argymhelliad i groesawu ffoaduriaid i Wynedd
- Gefnogol i'r paratoadau trylwyr sydd wedi eu gwneud
- Amlygu'r angen i baratoi'r gymuned leol ar gyfer derbyn ffoaduriaid er sicrhau plethiad i mewn i gymdeithas leol
- Croesawu'r defnydd o dai preifat fel na fydd effaith ar restrau tai cymdeithasol.

## 7. TREFNIADAU CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd yn adrodd ar brif ganfyddiadau gweithredu trefn newydd o gasglu gwastraff gweddilliol yn Ardal Meirionnydd. Pwysleisiwyd mai cynyddu ailgylchu yw'r prif nôd er mwyn osgoi talu dirywion. Rhaid cyrraedd targed ailgylchu o 58% erbyn Mawrth 2016 ac felly angen cefnogi'r trefniadau. Eglurwyd y byddai'r targedau, sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Canolog, yn parhau hyd at 2025 lle bryd hynny bydd angen ailgylchu 70%. Amlygwyd mai dyma'r sefyllfa sydd yn wynebu pob Cyngor.



DRAFFT

Cyflwynwyd y newidiadau ym Meirionnydd ym Mehefin 2015 ac yn unol â threfniadau Ardal Dwyfor, sefydlwyd dau dîm i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r newid - y Tîm Gweithredol a'r Tîm Ymgysylltu. Ar y cyfan, nodwyd bod y trefniant wedi bod yn llwyddiannus a'r ffigyrau yn ymddangos yn galonogol. Un elfen wahanol ym Meirionnydd oedd nifer y pwyntiau cymunedol, ond bellach adroddwyd mai 30 o'r 140 o'r pwyntiau hynny sydd yn parhau i dderbyn casgliadau gweddilliol bob pythefnos.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i drigolion Meirionnydd am eu gweithrediad a hefyd i drigolion Dwyfor am gynnal eu perfformiad. Adroddwyd, ar ddiwedd Tachwedd bod ffigyrau perfformiad Gwynedd, o ran y mesur Cenedlaethol a Statudol ar gyfer ailgylchu, yn 58.52% a bod y newidiadau hyn ar darged i gyflawni arbedion rhaglenedig blynyddol o £350K i'r Cyngor (hyn yn ychwanegol i beidio talu dirywion).

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd am yr adroddiad a derbyniwyd bod y trefniadau yn symud y gwasanaeth i'r cyfeiriad cywir.
- Diolchwyd i'r gweithlu am eu gwasanaeth yn ystod y tywydd garw
- Amlygwyd pryderon am ardaloedd cymunedol
- A oes cynnydd mewn tipio slei bach?
- Angen parhau i wella taclusrwydd ar ôl codi gwastraff
- Rhaid atgoffa'r Cynulliad unwaith eto am yr angen i leihau deunydd pacedu
- Rhwystredig bod rhai trigolion yn gwrthod cydweithio
- Beth yw ymgyrch '*wash and squash*'?
- Angen canolbwyntio ar ardaloedd lle mae llawer o dai ynddynt
- Angen ymateb i ardaloedd lle mae diffyg lle storio biniau
- Awgrym i'r Adran Cynllunio ystyried 'darpariaeth ddigonol' ar gyfer storfa biniau ar gyfer pob cais perthnasol
- Wrth ystyried ailgylchu biniau stryd – pwyslais ar negeseuon syml a chlir
- Rhaid addysgu pobl i ddeall bod ailgylchu yn cyfrannu at eu budd yn y dyfodol
- Pwyslais ar ymgysylltu gyda chymunedau gyda chais i'r grwpiau gweithredol a ddefnyddiwyd yn Nwyfor a Meirionnydd gydweithio gydag ardaloedd penodedig i wella sefyllfaoedd

c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ei fod yn ymfalchïo yng ngwaith y gweithlu ar hyn roeddynt wedi cyflawni o fewn amodau a thelerau anodd dros gyfnod y tywydd garw a'r Nadolig.

Yn ychwanegol, nodwyd bod cynnydd mewn tipio slei bach, ond bod hyn yn batrwm sydd i'w weld dros Brydain ac mai eitemau trwm megis oergelloedd a chynnyrch adeiladu sydd yn cael eu tipio ac nid gwastraff sy'n cael ei gasglu o dai. Cytunwyd yr angen i weithredu a gofynnwyd i'r aelodau am eu cefnogaeth i adrodd ar unrhyw achlysur lle mae tipio slei bach yn/wedi digwydd.

Yng nghyd destun gwastraff budr (*wash and squash*), adroddwyd bod y deunydd yma yn cael ei ailgylchu, ond bod cyflwr eitemau budr yn rhoi pris llai a derbyniwyd yr angen i rannu'r neges gyda'r cyhoedd. O ran taclusrwydd, adroddwyd bod 4 cerbyd newydd gan Wynedd sydd yn cynorthwyo'r gweithlu ac yn atal deunydd rhag chwythu wrth iddynt weithio.

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ar angen am losgfa ar Lannau Dyfrdwy o ystyried bydd gostyngiad posib yn y mewnbwn, nodwyd bod y llosgfa, pan yn weithredol, yn cyfrannu 7% at y nôd.

e) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chasgliadau amlach mewn ardaloedd myfyrwyr a thai gwyliau, nodwyd bod ymgyrchoedd llwyddiannus iawn wedi eu cynnal gyda myfyrwyr a bod cydweithio da gydag Asiantaeth Tai Gwyliau Abersoch ar sefydlu cynllun ar gyfer tai gwyliau yn yr ardal. Adroddwyd hefyd bod gwaith penodol wedi ei wneud gyda Gwastraff Masnachol a bod gwelliant sylweddol yma o ganlyniad i newid trefniadau, darpariaeth a chyflwyno ffioedd gwahaniaethol i fasnachwyr.

f) Derbyniwyd bod yr her i'r dyfodol yn un heriol ac felly pwysig yw cael paratoadau cywir yn eu lle. Ategwyd mai'r bwriad yw ymateb i bob her gymunedol ac mai gwaith parhaol ydyw. Gwerthfawrogwyd yr ymdrech bresennol ac anogwyd parhad mewn cydweithio da er mwyn ymateb i broblemau/ heriau. Gwerthfawrogwyd y sylwadau.

**PENDERFYNWYD**

**a) bod y Pwyllgor yn falch o weld cynnydd yn y trefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff a'u bod yn awyddus i gofnodi eu gwerthfawrogiad o waith caled y staff, yn arbennig felly yn ystod y tywydd garw**

**b) bod y Pwyllgor yn gweld yr angen i gyfarch rhai materion wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen:**

- **bod angen i'r Aelod Cabinet barhau i bwyso ar y Llywodraeth i wneud rhywbeth am leihau deunydd pacedu nwyddau**
- **Y dylid rhannu gwybodaeth gyda'r Aelodau yn gyffredinol ynglŷn â datblygiadau '*wash and squash'* i wella glendid y deunydd sydd yn cael ei gasglu**
- **bod yr Aelodau yn gobeithio gweld gwelliant pellach yn y taclusrwydd wrth gasglu gan hyderu y bydd y peiriannau newydd yn hwyluso hynny**
- **Y dylid parhau i edrych am atebion creadigol i heriau casglu mewn ardaloedd poblog trwy ddatblygu biniau cymunedol**
- **Y dylid sicrhau cynnydd pellach yn yr ymgysylltu a deialog gyda thrigolion er mwyn gwella ailgylchu ymhellach.**
- **Angen sicrhau bod trefniadau ailgylchu ar y stryd yn symud yn ei flaen gyda phwyslais ar gael negeseuon syml a hawdd i'w deall i'r cyhoedd ar y trefniadau hynny**

**TREFNIADAU NADOLIG A GŴYL SAN STEFFAN**

a) Adroddwyd bod y Nadolig a'r tywydd garw wedi uchafu problemau ac felly camau wedi eu hadnabod i symud ymlaen. Yn gyffredinol, nodwyd bod y gwasanaeth wedi bod yn dda o dan amgylchiadau anodd iawn ym Meirionnydd a Dwyfor gyda pheth ddryswch yng nghanol newidiadau yn Arfon. Er gwaethaf sylwadau yn y wasg, cadarnhawyd hyd y Nadolig, bod trefniadau Arfon wedi bod yn dda, a bod cyfle nawr i ddysgu gwersi a symud ymlaen.

## 8. Y GWASANAETH DIFA PLA

a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio i'r Pwyllgor ystyried opsiynau posib ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth difa pla. Rhoddwyd esboniad ar natur y gwasanaeth ac amlinellwyd bod y gwasanaeth o fewn rhaglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran Rheoleiddio ar gyfer 2015-2018 - arbediad gwerth £67,000. Erbyn hyn, adroddwyd bod un swyddog wedi ymadael a bellach mai'r ffigwr i gyrraedd yr arbediad pe byddai'r uned yn cael ei diddymu, yw £28,440.

Ategwyd bod diffyg incwm yn parhau o fewn y gwasanaeth, ond bod Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn awyddus i ystyried opsiynau posib;

- Diddymu gwasanaeth rheoli pla
- Adolygu a chynyddu nifer cytundebau rheoli a difa pla drwy wella marchnata
- Codi ffioedd difa pla i fod yn hunangynhaliol



DRAFT

- Codi ffioedd difa pla i gyfarfod yr arbediad o ddiddymu'r gwasanaeth

(Awgrymwyd y buasai codi ffioedd yn ormod o chwyddiant ac felly, o bosib yn wasanaeth rhy ddrud)

Gwnaed cais i'r Pwyllgor roi cyfnod o 6 mis i'r adran adnabod gwelliannau, strwythur ffioedd newydd a thargedau incwm realistig i geisio gwasanaeth hunan cynhaliol. Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth bod cyfleoedd posib, megis cynyddu'r niferoedd o gytundebau sefydlog ac edrych ar gynyddu nifer cytundebau yn ardal Arfon.

b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Croesawu'r cyfle i gynnal gwasanaeth hunangynhaliol - y gwasanaeth yn un angenrheidiol i'r cyhoedd
- Ffafriol i gost niwtral yn hytrach na dileu
- Buasai diddymu'r gwasanaeth yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau cwmnïau preifat ac felly pwysig cadw'r gwasanaeth o fewn y Cyngor er mwyn gwarchod prisiau i'r cyhoedd
- Gwasanaeth pwysig er nad yn statudol
- Croesawu'r angen i farchnata ac edrych ar ffioedd cystadleuwyr /cwmnïau preifat
- Rhaid ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch ac nid materion ariannol yn unig
- Y swyddi o fewn y gwasanaeth yn rhai cyfrifol ac arbenigol
- Annog cydweithio gyda'r adran ailgylchu
- Nifer o wasanaethau mewnol yn ddibynnol ar y gwasanaeth - petai'r gwasanaeth yn cael ei ddiddymu o ble a beth fydd cost gwasanaeth cwmni allanol / preifat?

c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Gwasanaeth ei fod yn gwerthfawrogi cefnogaeth yr Aelodau a'i fod yn hyderus bod modd cyfarch y diffyg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio cwmnïau allanol / preifat gan nad yw gwasanaeth difa pla'r Cyngor yn un statudol, nodwyd mai anodd yw darganfod ffioedd cwmnïau preifat er mwyn nodi cymhariaeth. Pwysleisiwyd yr angen am lefelau ffioedd teg a chyson a gwerthfawrogwyd y cyfle i ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd posib.

Cadarnhawyd mai arbedion effeithlonrwydd oedd dan sylw ac nid oedd y gwasanaeth ar restr toriadau'r Cyngor.

**PENDERYNWYD derbyn yr adroddiad ac y dylid caniatáu cyfnod o 6 mis i gyflwyno strwythur ffioedd newydd a thargedau incwm realistig i'r gwasanaeth difa pla fod yn hunangynhaliol**.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:00

_______________________________

**CADEIRYDD**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Mai 2016 |
| **TEITL** | Toiledau Cyhoeddus |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **PWRPAS** | I ystyried a gwneud argymhelliad ar Gynllun i geisio cadw toiledau cyhoeddus sydd dan fygythiad o gau oherwydd y toriadau yn agored a gweithredol i'r dyfodol. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn dilyn ymarferiad ymgysylltu Her Gwynedd bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod 3 Mawrth, 2016 argymell gwneud toriadau oedd yn cynnwys 'cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir' gan dorri £244,000 o'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth.

1.2 Pe byddai gwireddu hyn, rhagwelir dethol pa rai i'w cadw neu gau ar sail gwerthusiad o bwysigrwydd toiledau ddatblygwyd gan Weithgor Toiledau Cyhoeddus (Pwyllgor Amgylchedd) yn 2008/2009 dan y meini prawf canlynol:

- lefel defnydd
- cysylltiad a'g atyniad i ymwelwyr
- defnydd gan fodurwyr ar gefnffyrdd neu Ffyrdd Dosbarth 1 a 2
- cysylltiad â chanolfan siopau
- cyfleusterau ar gyfer yr anabl
- cysylltiad â chyfnewidfa cludiant cyhoeddus e.e. gorsaf bysiau
- cysylltiad â Thraeth Banner Las.

1.3 Mae disgwyliad bod rhaid cyflawni'r £244,000 toriad erbyn 1 Ebrill, 2017 ar yr hwyraf. Ynghyd â'r Pennaeth Adran perthnasol, 'rwyf wedi edrych os oes modd datblygu cynllun amgen i gadw cymaint a phosib o doiledau yn agored a gweithredol er y gostyngiad sylweddol mewn cyllideb.

1.4 Pwrpas yr Adroddiad hwn yw i gael argymhelliad y Pwyllgor Craffu ar gynllun amgen i gwrdd â'r toriad gan geisio cynnal y ddarpariaeth bresennol o Doiledau Cyhoeddus yn y Sir.

## 2 CYNLLUN PARTNERIAETHU I GYNNAL DARPARIAETH

2.1 Yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn mae rhestr o doiledau cyhoeddus mae'r Cyngor hwn yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae'r rhestr yn cynnwys:

- tref/pentref/cyngor cymuned neu gyngor tref perthnasol
- lleoliad y toiled
- cyfnod agor: sef trwy'r flwyddyn neu dymhorol (fel arfer o'r Pasg hyd ddiwedd mis Hydref)
- nodi unrhyw drefn partneriaethu presennol
- amcangyfrif gorau o gost ar gyfartaledd gweithredu'r toiled yn flynyddol.

2.2 Mae'r Cynllun yn ddibynnol ar ennyn diddordeb Cynghorau Cymuned a Thref i bartneriaethu er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth yn 2017/18. Disgwylir cyfraniad ariannol gan y Cynghorau Cymuned a Thref i'r pwrpas ac mae dau opsiwn mewn gwneud hyn sef:

- **Opsiwn 1:** lefel cyfraniad o £4000 i bob toiled yn agored drwy'r flwyddyn a chyfraniad o £2000 i bob toiled sy'n agored yn dymhorol.

- **Opsiwn 2:** cyfraniad cyfwerth a thraean (33.3%) cost blynyddol ar gyfartaledd o weithredu'r toiled.

2.3 Yn amlwg, mae gan rai cynghorau cymuned a thref fwy na un toiled yn eu cymuned/tref ac mae'r rhestr yn Atodiad 1 yn cynnwys cyfanswm cyfraniad blynyddol y gymuned neu dref ar gytuno i bartneriaethu dan y Cynllun.

2.4 Mae'r Cynllun yn cynnwys ail ran i'w weithredu o 2017/18 ymlaen sef rhoddi'r dewis i'r Cyngor Cymuned/Tref:

- i barhau gyda'r drefn partneriaethu i'r flwyddyn/blynyddoedd olynol, neu
- i ddatblygu trefniadaeth ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb llawn am y ddarpariaeth wedi 2017/18.

2.5 O brofiad, gall gymeryd hyd at ddwy flynedd i ddatblygu trefniadau i Gynghorau Cymuned/Tref gymeryd cyfrifoldeb am yr eiddo a chyflenwadau yn llawn.

2.6 Yn Atodiad 2 i'r Adroddiad hwn, mae drafft o lythyr safonol fyddai'n debygol o fynd i gynghorau cymuned a thref pe wireddir y Cynllun hwn.

2.7 Rhagwelir mai manteision partneriaethu i'r Cyngor Cymuned a Thref fyddai:

- cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol
- posibiliad o ddatblygu trefniadaeth amgen ar gyfer eu gweithredu, pe dymunir
- rhoddi rôl ddylanwadol i'r gymuned o ran sicrhau'r ddarpariaeth i'r dyfodol
- rhoddi amser digonol ar gyfer addasu praeseptau
- agor cyfleon ar gyfer denu grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth i'r dyfodol.

2.8 Manteision partneriaethu i'r Cyngor hwn fyddai:

- cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol
- gwell sicrwydd o gynnal cyflogaeth gweithwyr sy'n glanhau a chynnal y ddarpariaeth
- cyflawni'r toriad i'r gyllideb erbyn 1 Ebrill, 2017
- creu sail gadarn i strategaeth o ddarparu toiledau cyhoeddus yn y Sir fydd yn cwrdd ag unrhyw ofyn statudol posibl i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

2.9 Pe byddai ddim diddordeb mewn partneriaethu i gynnal y ddarpariaeth yna bydd disgwyl i'r toiled dan sylw gau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, sef 2016/17.

**3. ARGYMHELLION**

3.1 Y Pwyllgor Craffu i ystyried y Cynllun ac i gynghori:

3.1.1 Os oes cefnogaeth i'r Cynllun (gan gynnwys unrhyw awgrymiadau o ran gwelliannau i'r Cynllun).

3.1.2 Os yn cefnogi, pa opsiwn (1 neu 2) ddylid ei ddilyn.

3.1.3 Os yn cefnogi, bod y Pwyllgor Craffu yn argymell i'r Cabinet y dylid addasu'r penderfyniad i wneud toriad o £244,000 drwy yn gyntaf ymgeisio i sefydlu partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn ceisio osgoi cau y cyfleusterau tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

**ATODIAD / APPENDIX 1**

| | Tref neu Bentref / Town or Village | Lleoliad / Location | Agored / Open | Partneriaeth/Partnership | Cyfanswm Cost Gweithredu ar gyfartaledd/Average Total Cost | Opsiwn/Option 1: Cyfraniad gan Cynghorau Cymuned/Thref / Town/Community Council Contribution | Opsiwn/Option 1: Cyfanswm Cost I'r Cyngor Cymuned/Thref / Total Cost for Town/Community Council | Opsiwn/Option 2: Cyfraniad/ Contribution 33.333333% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ardal ARFON Area** | | | | | | | |
| 1 | Bangor | Glanrafon | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £27,719.42 | £4,000 | | |
| 2 | Bangor | Tanyfynwent | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £30,536.53 | £4,000 | | |
| 3 | Bangor | Y Pier | Tymhorol / Seasonal | | £8,200.54 | £2,000 | **£10,000** | **£22,152.16** |
| 4 | Bethesda ** | Stryd Fawr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,686.19 | £4,000 | £4,000 | £2,562.06 |
| 5 | Caernarfon | Allt y Castell | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £34,864.85 | £4,000 | | |
| 6 | Caernarfon* | Empire | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £36,641.34 | £4,000 | | |
| 7 | Caernarfon* | Penllyn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £32,674.68 | £4,000 | **£12,000** | **£34,726.96** |
| 8 | Dinas Dinlle (Llandwrog) | Marine | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,739.41 | £4,000 | £4,000 | £4,913.14 |
| 9 | Felinheli | Ffordd y Traeth | Trwy'r flwyddyn /All Year | Trosglwyddiad/Transfer | £6,963.00 | | **£6,963.00** | £6,963.00 |
| 10 | Llanberis | Ger y Llyn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,431.45 | £4,000 | | |
| 11 | Llanberis | Maes Padarn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,329.02 | £4,000 | | |
| 12 | Llanberis | Y Glyn | Tymhorol / Seasonal | | £12,392.48 | £2,000 | **£10,000** | **£10,384.32** |
| 13 | Penygroes (Llanllyfni) | Heol y Dwr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,289.60 | £4,000 | £4,000 | £2,096.53 |
| | | | | | | | | |
| | **Ardal DWYFOR Area** | | | | | | | |
| 14 | Aberdaron | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £3,915.26 | £2,000 | £2,000 | £1,305.09 |
| 15 | Aberdesach (Clynnog) | | Tymhorol / Seasonal | | £2,315.08 | £2,000 | | |
| 16 | Clynnog | | Tymhorol / Seasonal | | £2,414.87 | £2,000 | **£4,000** | **£1,576.65** |
| 17 | Abersoch (Llanengan) | Ger y bont | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,604.62 | £4,000 | | |
| 18 | Abersoch (Llanengan) | Golff | Tymhorol / Seasonal | | £6,345.18 | £2,000 | | |
| 19 | Abersoch (Llanengan) | Machroes | Tymhorol / Seasonal | | £4,509.68 | £2,000 | | |
| 20 | Mynytho (Llanengan) | | Tymhorol / Seasonal | | £2,452.96 | £2,000 | **£10,000** | **£7,970.81** |
| 21 | Beddgelert | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,821.66 | £4,000 | £4,000 | £3,607.22 |
| 22 | Criccieth*** | Esplanade | Tymhorol / Seasonal | | £7,009.72 | £2,000 | | |
| 23 | Criccieth | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,576.60 | £4,000 | | |
| 24 | Criccieth | Marine | Tymhorol / Seasonal | | £6,246.47 | £2,000 | **£8,000** | **£7,944.26** |
| 25 | Llanbedrog | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £4,410.57 | £2,000 | £2,000 | £1,470.19 |
| 26 | Llanystumdwy | | Tymhorol / Seasonal | | £3,713.61 | £2,000 | £2,000 | £1,237.87 |
| 27 | Llithfaen (Pistyll) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,656.54 | £4,000 | £4,000 | £2,552.18 |
| 28 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £9,754.22 | £2,000 | | |
| 29 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Gwydryn | Tymhorol / Seasonal | | £4,208.09 | £2,000 | | |
| 30 | Borth y Gest (Porthmadog) | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,746.19 | £4,000 | | |
| 31 | Tremadog (Porthmadog) | Stryd Fawr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,146.65 | £4,000 | | |
| 32 | Porthmadog* | Y Parc | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,606.45 | £4,000 | **£16,000** | **£11,153.87** |
| 33 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Cae Coch | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,295.61 | £4,000 | | |
| 34 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | Partner £3815 | £9,059.19 | £2,000 | | |
| 35 | Nefyn | Cefn Twr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,769.21 | £4,000 | | |
| 36 | Nefyn | Lon Gam | Tymhorol / Seasonal | Partner £3754 | £5,529.91 | £2,000 | **£12,000** | **£10,217.97** |
| 37 | Pwllheli | South Beach | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,517.99 | £4,000 | | |
| 38 | Pwllheli | Stryd Penlan | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,171.54 | £4,000 | | |
| 39 | Pwllheli | West End | Tymhorol / Seasonal | | £4,224.89 | £2,000 | | |
| 40 | Pwllheli* | Y Maes | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,552.33 | £4,000 | **£14,000** | **£10,822.25** |
| 41 | Sarn Meillteyrn (Botwnnog) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,914.25 | £4,000 | £4,000 | £1,638.08 |
| 42 | Trefor (Llanelhaearn) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £2,607.22 | £2,000 | £2,000 | £869.07 |
| 43 | Tudweiliog | | Tymhorol / Seasonal | | £4,016.77 | £2,000 | £2,000 | £1,338.92 |
| | | | | | | | | |
| | **Ardal MEIRIONNYDD Area** | | | | | | | |
| 44 | Aberdyfi | Neuadd Dyfi | Tymhorol / Seasonal | | £7,996.22 | £2,000 | | |
| 45 | Aberdyfi | Y Cei | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £15,488.97 | £4,000 | **£6,000** | **£7,828.40** |
| 46 | Abergynolwyn (Llanfihangel) | | Tymhorol / Seasonal | | £3,263.76 | £2,000 | £2,000 | £1,087.92 |
| 47 | Abermaw | Llys Cambrian | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £42,310.47 | £4,000 | | |
| 48 | Abermaw | Promenad y Gogledd | Tymhorol / Seasonal | | £12,986.02 | £2,000 | | |
| 49 | Abermaw | Y Cei | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £22,375.97 | £4,000 | **£10,000** | **£25,890.82** |
| 50 | Bala | Plase | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,110.77 | £4,000 | | |
| 51 | Bala ** | Y Grin | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £15,927.61 | £4,000 | **£8,000** | **£8,012.79** |
| 52 | Blaenau Ffestiniog ** | Diffwys | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,705.97 | £4,000 | £4,000 | £3,235.32 |
| 53 | Bryncrug | | Tymhorol / Seasonal | | £2,879.55 | £2,000 | £2,000 | £959.85 |
| 54 | Corris Isaf ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £3,032.48 | £4,000 | £4,000 | £1,010.83 |
| 55 | Dinas Mawddwy ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | Partner £360 | £3,616.22 | £4,000 | £4,000 | £1,205.41 |
| 56 | Dolgellau* | Maes Parcio'r Marian | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,449.49 | £4,000 | £4,000 | £4,816.50 |
| 57 | Dyffryn Ardurdwy | | Tymhorol / Seasonal | | £4,070.22 | £2,000 | | |
| 58 | Talybont (Dyffryn Ardurdwy) | Pentre | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,788.87 | £4,000 | **£6,000** | **£3,286.36** |
| 59 | Fairbourne (Arthog) | Ffordd yr Orsaf | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,698.44 | £4,000 | | |
| 60 | Fairbourne (Arthog) | Penrhyn Drive South | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,789.68 | £4,000 | **£8,000** | **£4,162.71** |
| 61 | Ganllwyd ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,773.19 | £4,000 | £4,000 | £1,591.06 |
| 62 | Harlech | Bron y Graig | Tymhorol / Seasonal | | £6,637.52 | £2,000 | | |
| 63 | Harlech | Castell | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,184.54 | £4,000 | | |
| 64 | Harlech | Min y Don | Tymhorol / Seasonal | | £4,413.56 | £2,000 | | |
| 65 | Harlech | Queen's | Tymhorol / Seasonal | | £9,408.80 | £2,000 | **£10,000** | **£9,214.81** |
| 66 | Llanbedr | | Tymhorol / Seasonal | | £3,947.00 | £2,000 | £2,000 | £1,315.67 |
| 67 | Llandanwg (Llanfair) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,567.00 | £4,000 | £4,000 | £1,855.67 |
| 68 | Llwyngwril (Llangelynin) | | Tymhorol / Seasonal | | £3,556.70 | £2,000 | £2,000 | £1,185.57 |
| 69 | Maentwrog ** | Newydd | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,816.00 | £4,000 | £4,000 | £2,272.00 |
| 70 | Pennal | | Trwy'r flwyddyn /All Year | Partner £1736 | £4,716.57 | £4,000 | £4,000 | £1,572.19 |
| 71 | Penrhyndeudraeth ** | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,927.84 | £4,000 | £4,000 | £1,975.95 |
| 72 | Trawsfynydd | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,212.07 | £4,000 | £4,000 | £2,070.69 |
| 73 | Tywyn | Maes Adloniant | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £11,543.18 | £4,000 | | |
| 74 | Tywyn | Sinema | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £12,221.23 | £4,000 | **£8,000** | **£7,921.47** |
| | | | | | **£705,997.75** | **Cyfanswm / Total** | **£240,963** | **£239,974.58** |

*** Toiled lle codi'r ffi / Toilets where a fee is charged**

**** Cyfraniad tuag at costau gan Asiantaeth Cefnffyrdd / Trunk Road Agency contribution towards running costs**

*****Costau Cynnal a Chadw Uchel ar gyfer yr Adeilad dros 3 blynedd / High building maintenance costs over 3 years**

ATODIAD 2a

**Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**
**Head of Highways and Municipal**
Gwyn Morris Jones B.Eng., C.Eng., M.I.C.E.

, 2016

DRAFFT O LYTHYR SAFONOL

Annwyl Glerc,

**Toiled/au Cyhoeddus yn eich Tref/Cymuned**

Fe wyddoch o'r ymarferiad 'Her Gwynedd' diweddar fod Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud toriadau i wasanaethau oherwydd diffyg sylweddol mewn cyllidebau. Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod bygythiad i ddyfodol toiledau cyhoeddus ddarperir ganddom gyda'r rhagolwg bydd angen cau nifer fawr ohonynt o fewn y flwyddyn.

Er mwyn osgoi cau toiledau, yr ydym yn cysylltu gyda chi a holl gynghorau cymuned/tref/dinas perthnasol yn y Sir i sefydlu os byddwch yn fodlon cyfrannu a mynd i bartneriaeth gyda ni i gadw'r ddarpariaeth yn eich cymuned yn agored a gweithredol. I'r pwrpas, yr ydym wedi dethol lefel cyfraniad ariannol blynyddol ddisgwylir gan Gynghorau Cymuned/Tref i'n galluogi i gyflawni hyn.

Byddai eich cytundeb i'r bartneriaeth yn ein galluogi i gadw'r toiled/au yn agored ac yn weithredol yn 2017/18 a lle bydd cyfle pellach i ni yntau ymestyn y bartneriaeth i'r flwyddyn olynol neu, **pe dymunir ganddoch**, ddatblygu trefniadau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb am y ddarpariaeth yn llwyr i chi.

Mae'r daflen atodol yn berthnasol i chi a byddaf yn ddiolchgar pe medrwch ddynodi arno:

1. Os ydych â diddordeb mewn partneriaethu.
2. Os oes ganddoch ddiddordeb mewn datblygu trefniadaeth amgen ar gyfer y ddarpariaeth wedi 2017/18.

Byddaf yn ddiolchgar pe medrwch ddychwelyd y daflen atodol wedi ei lenwi i'm sylw a chyn ……… 2016 os gwelwch yn dda.

Hoffwn ddiolch i chi o flaen llaw am eich ystyriaeth o'r mater ac edrychaf ymlaen i dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

*Ansawdd* — *9001 - FS 66550*
*Amgylcheddol* — *14001 - EMS 576764*
*Iechyd a Diogelwch* — *18001 - OHS 544926*

Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 711000
www.gwynedd.llyw.cymru

# ATODIAD 2b

## <u>CYNLLUN PARTNERIAETHU TOILEDAU CYHOEDDUS</u>

| **Cyngor:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Toiled/Lleoliad** | **Agored** | **Cost Gweithredu Blynyddol ar Gyfartaledd** | **Eich Cyfraniad Blynyddol** | **Diddordeb Partneriaethu** | **Diddordeb rheoli i'r dyfodol** |
| | Trwy'r Flwyddyn | | £4,000 | | |
| | Tymhorol | | £2,000 | | |
| | **Cyfanswm:** | | | | |

**√ diddordeb**
**X dim diddordeb**

I'w ddychwelyd erbyn y ………., 2016 i sylw:

……………………………………………………………………..
……………………………………………………………………..
……………………………………………………………………..

Unrhyw ymholiadau cysylltwch â'r uchod ar 01286 ………. neu …………………[.@gwynedd.llyw.cymru](mailto:.@gwynedd.llyw.cymru) os gwelwch yn dda.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Mai, 2016 |
| **TEITL** | Adolygu'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **PWRPAS** | I ystyried a gwneud argymhellion ar y drefn awgrymir ar gyfer codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, 2014 bu i'r Cabinet gymeradwyo gweithredu ystod o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys 'Adolygu Gwasanaeth Gwastraff Gardd' i gyflawni arbedion o £750,000 yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

1.2 Mae'r bwriad i adolygu ein trefniadau casglu gwastraff gardd, gan gynnwys y posibiliad o godi ffi am y ddarpariaeth, yn unol â Strategaeth Wastraff (2010-2025) y Cyngor fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod 21 Ionawr, 2010.

1.3 O dan 'Reoliadau Gwastraff Penodol 2012 gall awdurdodau godi ffi ar gasglu gwastraff gardd gan drigolion (hyn ddim i gynnwys y gost o'i waredu) ac mae Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 yn rhoddi hyblygrwydd ar godi ffi neu beidio ar hawl pe dymunir i godi ffi rhesymol am y gwasanaeth.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn ei ganllawiau ymarfer da 'Glasbrint Casglu' yn argymell y dylid codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd ar amlder pob pythefnos a hyn i bwrpas lleihau ar y cyfaint o wastraff gardd roddir allan gan drigolion ac er mwyn arbed costau casglu a thirlenwi.

1.5 O ganlyniad, felly, mae nifer o siroedd yng Nghymru eisoes wedi newid eu trefniadau drwy godi ffi am y gwasanaeth casglu gardd. Mae'r gweddill o siroedd Cymru, fel Gwynedd, yn y broses o ystyried gwneud yr un peth.

1.6 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried yr opsiynau ar gael i gyflawni'r newid ac i gynnig unrhyw argymhelliad fyddai'n gwella ar yr hyn awgrymir ar gyfer gweithredu'r newid.

**2. TREFNIADAU PRESENNOL**

2.1 Yn bresennol mae Cyngor Gwynedd yn darparu un bin olwyn (brown) 240 litr i bob tŷ sydd yn dymuno cael y gwasanaeth. Mae llai na 500 o dai yn defnyddio bin maint 140 litr i'r pwrpas. Ar gyfer nifer fechan o dai lle mae cyfyngiadau (llai na 200 mewn nifer drwy'r Sir) cesglir gwastraff gardd drwy ddefnydd hyd at 3 sach pydradwy (gwyn). Mae'r casgliadau presennol ar amlder pob pythefnos a hynny drwy'r flwyddyn.


2.2 Nid pawb sydd yn dymuno cael y gwasanaeth, mae rhai trigolion heb erddi, eraill gyda'r gallu i fedru compostio gartref, gyda thir amaethyddol neu bod yn well ganddynt ei gludo i'n Canolfannau Ailgylchu. O'r 61530 eiddo sy'n derbyn casgliadau gwastraff, oddeutu 45204 eiddo (73.5%) sydd yn derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff gardd.

2.3 Cost presennol darparu'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd yw oddeutu £807,000 y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae costau adnewyddu a darparu cynhwysyddion ar ei gyfer, sydd oddeutu £32,000 y flwyddyn.

2.4 O ran adnoddau mae 17 nifer o weithwyr (FTE) a 3 cerbyd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys y gweithwyr tymhorol sydd eu hangen er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn defnydd o'r gwasanaeth yn ystod yr haf.

2.5 Wedi ei gasglu bydd gwastraff gardd yn mynd i Orsaf Compostio Mewn Llestr Penhesgyn, Ynys Môn i'w brosesu a'i droi yn 'wrtaith gwella pridd' neu i safle Gwrtaith Gwynedd, Afonwen i'r un pwrpas. Mae'r Orsaf yn cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd. Mae compostio'r gwastraff gardd yn ein galluogi i osgoi ei anfon i'w waredu drwy dirlenwi. Gan fod gwastraff gardd yn bydradwy, mae ei gompostio yn hytrach na thirlenwi yn hanfodol os yw'r Cyngor am osgoi dirwyon drwy'r drefn Lwfans Tirlenwi.

2.6 Mae'r ffigwr canlynol yn amlygu'r hyn gesglir o wastraff gardd yn ystod y flwyddyn am y 4 mlynedd diwethaf. Sylwer bod y tunelledd gesglir yn eithaf cyson a bod defnydd ar y gwasanaeth oddi allan i'r tymor tyfu.



2.7 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfanswm gwastraff gardd mewn tunelledd y casglwyd gan drigolion yn ystod y 4 mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Cyfanswm Tunelledd a Gasglwyd |
|---|---|
| 2012/13 | 8264 |
| 2013/14 | 8059 |
| 2014/15 | 8072 |
| 2015/16 | 7926 |

2.8 Mae casglu gwastraff gardd yn cyfrannu tuag at gyflawni ein targed ailgylchu. Ar 31 Mawrth, 2016 bu i'r Cyngor gyrraedd 58.75% ailgylchu/compostio (targed statudol yn 58%). Mae'r 58.75% yn seiliedig ar ail-ddefnyddio (0.18%), ailgylchu (35.46%), compostio gwastraff gardd gesglir gan drigolion (oddeutu 10%), compostio eraill (13.11%). Dylid nodi byddai'r Cyngor yn derbyn dirwyon pe byddai'r ganran ailgylchu yn gostwng yn is na 58% mewn unrhyw flwyddyn a bod angen cyrraedd targed statudol o 64% ailgylchu/compostio erbyn 31 Mawrth, 2020, a 70% erbyn 31 Mawrth, 2025.

## 3. PROFIADAU A THREFNIADAU SIROEDD ERAILL

3.1 O'r 22 Sir yng Nghymru mae 9 Sir ar hyn o bryd yn codi rhyw fath o ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd. Mae 4 o'r siroedd hyn yn codi ffi cychwynnol am y sach ddefnyddir i'r pwrpas e.e. £1.50 am sach gellir ei ail-ddefnyddio neu £1 am dri sach pydradwy. Mae'r 5 Sir arall yn codi ffi blynyddol am gasgliadau gwastraff gardd rheolaidd ac mae'r tabl isod yn amlygu beth yw eu trefniadau ar ei gyfer:

| Sir | Codi am y Cynhwysydd | Cynhwysydd | Amlder Casglu | Cyfnod Casglu | Manylion Ffi Blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Na | Sachau hesian | Pythefnos | 9 mis | £25 |
| Pen y Bont | Na | 2 sach | Pythefnos | 9 mis | £27 |
| Dinbych | Na | Bin 140 litr/neu 240 litr neu sachau | Pythefnos | Trwy'r flwyddyn | £34 bin 240 litr, £22 bin 140 litr/3 sach |
| Mynwy | Na | Sachau | Wythnosol | 9 mis | £12 |
| Penfro | Na | 240 litr neu sachau | Pythefnos | 9 mis | £38 |

3.2 O'r hyn yr ydym ar ddeall, lle mae sir yn codi ffi am y gwasanaeth oedd yn flaenorol am ddim, mae gostyngiad eithaf sylweddol yn y gofyn am, a'r defnydd, o'r gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno. Gall hyn fod cymaint â 60% o ostyngiad yn y nifer sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae'r siroedd hyn yn adrodd bod cynnydd oddeutu 20% yn y galw am y gwasanaeth wedi'r flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r ffi.

3.3 Yr ydym wedi dilyn trywydd a chael gwybod profiadau un sir yn benodol sydd wedi cyflwyno'r drefn o godi ffi ar gasglu gardd dwy flynedd yn ôl. Mae'r canlynol yn amlygu effaith y newid ynghyd a threfniadau sydd nawr mewn lle ac wedi eu datblygu ar ei gyfer:

- Gostyngiad hyd at 60% yn y galw am y gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno.
- Cynnydd o 20% yn y galw am y gwasanaeth yn y flwyddyn olynol.
- Trefn Talu - syml ar-lein gyda cherdyn/cost £2 ychwanegol os yn trefnu dros y ffôn.
- Trefn Adnewyddu – syml ar-lein/dros y ffon, (adnewyddu o fewn 12 wythnos i ddiwedd y flwyddyn).
- Gwybod gan bwy I Gasglu – label unigryw ar y cynhwysydd.
- Diwrnod Casglu – ar y calendr ddarperir gyda'r label wedi talu'r ffi.
- Gwastraff Gardd yn y Bin Gweddilliol – ddim yn dderbyniol, camau gorfodaeth.

3.4 Mae profiadau'r siroedd hyn yn amlygu bod gostyngiad yn y galw am y gwasanaeth ar godi ffi am y ddarpariaeth. Mae hyn o ganlyniad yn golygu llai o gostau i'r awdurdod o ran ei gasglu ac ymdrin.

## 4. YSTYRIAETHAU AR EI GYFLWYNO YNG NGWYNEDD

### 4.1 Y Cynhwysydd ar ei Gyfer

Er y byddai manteision o newid i gynhwysydd newydd (lliw gwahanol) ar gyfer y gwasanaeth ar ei *'newydd wedd'*, byddai'r gost o wneud hyn yn llesteiriol gan fod cost darparu pob bin olwyn 240 litr o ddeutu £25.00 ar hyn o bryd e.e. pe byddai 40% o anheddau'r sir yn derbyn y gwasanaeth byddai'r gost o ddarparu cynhwysydd newydd o gwmpas £615,000.

Felly argymhellir cadw at ddefnyddio'r cynhwysyddion a ddarperir yn bresennol. Ar wneud hyn mae ambell fater yn codi ac angen sylw sef:

- **os oes gofyn am fin ychwanegol ar gyfer gwastraff gardd a ddylid ei ganiatáu?** *Awgrymir y dylid gwneud hyn ar sail ffi ychwanegol am y ddarpariaeth (sydd dywed 15% yn is na'r ffi am y bin cyntaf).*

- **os oes gofyn am newid i fin llai, sef newid o 240 litr i 140 litr a ddylid ei ganiatáu?** *Awgrymir y dylid gwneud hyn a chodi ffi osodir am gasglu drwy ddefnydd bin llai (sydd dywed 15% yn is na'r ffi am y bin 240 litr).*

- **os na fydd angen y bin olwyn gwastraff gardd mwyach a ddylid ei gasglu o'r eiddo?** *Awgrymir y dylid ei gasglu o'r eiddo ond ar adegau pan fydd cais gan y trigolyn i wneud hyn.*

⮜ **i'r ychydig sy'n derbyn casgliad drwy ddefnydd 3 sach pydradwy (gwyn), a ddylid codi am ddarparu'r bagiau fel mae rhai siroedd yn ei wneud?** (gweler 3.1 o'r Adroddiad hwn).
*Awgrymir ei fod yn rhan o'r ffi a godir yn flynyddol am y gwasanaeth ond y dylid darparu 5 sach pydradwy yn hytrach na 3 er mwyn bod yn gyson o ran cyfaint ar bin olwyn 240 litr.*

⮜ **rhagwelir bydd label yn cael ei ddarparu yn flynyddol i'r cwsmer sydd yn talu am y gwasanaeth ac ar gyfer ei roddi ar y cynhwysydd. Yr ydym yn ymwybodol bod o leiaf un sir yn codi ffi o £10 os bydd angen darparu label newydd ar ei golli. A ddylid gwneud hyn?**
*Awgrymir na ddylid gwneud hyn ond ei fod yn fater i'w ystyried i'r dyfodol os bydd yn achosi costau gweinyddu ychwanegol.*

## 4.2 Amlder Casglu

Gan fod trigolion wedi arfer derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff gardd ar amlder o bythefnos, mae'n fwyaf tebygol bydd disgwyliad, ar godi ffi, y byddai hyn yn parhau. Argymhellir felly, bod yr amlder yn aros pob pythefnos.

Mater sydd angen ei ystyried yw os ddylid darparu gwasanaeth casglu gwastraff gardd drwy'r flwyddyn neu ei gyfyngu i 9 mis y flwyddyn (y tymor tyfu), fel mae rhai siroedd wedi dewis gwneud.

Mae'r canlynol yn cloriannu'r manteision ac anfanteision.

| | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| **Casglu am 9 mis** | • Costau llai mewn darparu'r gwasanaeth<br>• Ffi ychydig yn llai i'r trigolion | • Yn wahanol i'r drefn bresennol<br>• Yn fwy cymhleth i gwsmeriaid<br>• Ddim yn cael y tunelledd casglu gwastraff gardd yn y gaeaf, effaith ar y Gorsaf Compostio a ffigyrau ailgylchu<br>• Trefn anghyson a thoredig gyda'r gweithlu |
| **Casglu trwy'r flwyddyn** | • Fel y gwasanaeth presennol<br>• Yn syml i gwsmeriaid ddilyn<br>• Galluogi casglu gwastraff gardd yn y gaeaf, llai o effaith ar y Gorsaf Compostio a ffigyrau ailgylchu<br>• Trefn cyson gyda'r gweithlu | • Costau uwch mewn darparu'r gwasanaeth<br>• Ffi ychydig yn uwch i'r trigolion |

O ran darparu gwasanaeth fwy cyflawn, cyson a syml i drigolion, mae manteision gyda parhau'r drefn bresennol o gasglu drwy'r flwyddyn. Dylid nodi o baragraff 2.6 o'r Adroddiad hwn bod tunelledd eithaf sylweddol o wastraff gardd yn cael ei gasglu yn ystod misoedd y gaeaf. Prif fantais casglu ond am 9 mis y flwyddyn yw lleihad yng nghostau'r gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach a fwy manwl yn rhan nesaf o'r Adroddiad hwn a dan yr 'Achos Busnes'.

### 4.3 Yr Achos Busnes

Mae'r amcangyfrif o gostau sy'n dilyn ar gyfer casglu a gweinyddu yn unig, nid yw yn cynnwys costau compostio.

| | **Llafur £** | **Trafnidiaeth £** | **Eraill* £** | **Incwm £** | **Cyfanswm Net £** | **Arbediad Blynyddol £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Casglu Presennol** | 546,590 | 260,410 | | -- | 807,000 | -- |
| **<u>Opsiwn 1</u>: Trwy'r flwyddyn**<br>>Amcan 40% o'r tunelledd presennol yn cael ei gasglu<br>>Lefel ffi o £33/fl | 390,590 | 221,410 | 30,000 | 585,000 | 57,000 | 750,000 |
| **<u>Opsiwn 2: </u>9 mis y flwyddyn**<br>>Amcan 40% o'r tunelledd presennol yn cael ei gasglu<br>>Lefel ffi o £30/fl | 360,590 | 200,000 | 30,000 | 540,000 | 50,590 | 756,410 |

Eraill*

| | |
|---|---|
| Gweinyddu'r Drefn Ffioedd | £7,000 |
| Sticeri | £3,000 |
| Amser Swyddog Monitro | £10,000 |
| Costau Ychwanegol Canolfannau Ailgylchu | £10,000 |
| Cyfanswm | £30,000 |

Mae'r lefel ffi uchod o rhwng £30 i £33 y flwyddyn yn cymharu'n dda gyda'r hyn godir gan siroedd eraill (gweler tabl yn 3.1 o'r Adroddiad hwn). Mae'r dewis o lefel ffi yn bwysig os am sicrhau'r arbediad blynyddol disgwyliedig o £750,000.

Mae angen bod yn wyliadwrus gyda'r ffigyrau uchod gan ei fod yn hynod o anodd darogan faint yn union fydd yn defnyddio'r gwasanaeth ar godi ffi, er mae'r amcan uchod yn amlygu sut fyddai'r arbediad disgwyliedig o £750,000 blynyddol yn cael ei gyflawni ar wireddu'r newid a drwy ddethol ffi briodol am y gwasanaeth. Gellir cyflawni hyn drwy gasglu drwy gydol y flwyddyn neu am gyfnod o 9 mis yn unig. Gan mai ond tua £3 o wahaniaeth y flwyddyn fyddai ar y ffi godir ar drigolion rhwng un opsiwn ar llall, awgrymir y dylid cadw at y drefn bresennol o gasglu drwy gydol y flwyddyn.

Yn amlwg, gyda'r ansicrwydd o ran yr union ofyn am y gwasanaeth wedi cyflwyno'r drefn o godi ffi, bydd angen adolygu lefel y ffi yn flynyddol er mwyn sicrhau bod yr arbedion disgwyliedig yn cael ei wireddu.

**4.4 Oblygiadau Staff**

Ar weithredu Opsiwn 1, sef casglu drwy'r flwyddyn rhagwelir bydd colli 6 (FTE) mewn nifer o weithwyr casglu. Gyda Opsiwn 2, rhagwelir y byddai colli 7 (FTE) mewn nifer o weithwyr casglu. Bydd yn ddisgwyliedig bod ymgynghori priodol gyda staff ac undebau perthnasol i'r pwrpas. O ran sicrwydd cyflogaeth, mae'r opsiwn o weithredu'r casglu drwy'r flwyddyn, sef Opsiwn 1, yn well.

**4.5 Gweinyddu**

Er mwyn casglu'r ffioedd bydd angen sefydlu trefn sy'n galluogi talu yntau drwy ddefnydd Safle We y Cyngor neu drwy gysylltu â Galw Gwynedd a hynny drwy ddefnydd cerdyn credyd neu ddebyd. Dylid caniatáu talu trwy ddefnydd siec neu arian parod ond drwy ymweld â Siop Gwynedd. Dylid nodi nad yw rheoliadau yn deillio o'r Ddeddf Cyllid Awdurdodau Lleol, 1992 yn caniatáu i ni gasglu'r ffi drwy'r drefn talu treth cyngor.

**4.6 Monitro Cydymffurfiaeth**

Ar gyflwyno ffi am gasglu gwastraff gardd, mae pryder y bydd rhai trigolion yn rhoddi gwastraff gardd yn y bin gweddilliol. Oherwydd y drefn tair wythnos o gasglu gwastraff gweddilliol, mae llai o bosibiliad o hyn ddigwydd oherwydd cyfyngder lle yn y bin gweddilliol.

Er mwyn atal hyn ddigwydd bydd angen monitro defnydd o'r bin gweddilliol a chymryd camau gorfodaeth o dan Adran 46 o'r Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd lle mae achosion o gamddefnydd.

Yn sicr, bydd angen pwysleisio ar drigolion nad yw hyn yn dderbyniol fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth i'r newid.

**4.7 Codi Ymwybyddiaeth**

Fel yn achos cyflwyno'r drefn casglu gwastraff gweddilliol pob 3 wythnos, bydd gwaith sylweddol ei angen ar godi ymwybyddiaeth i'r newid. Unwaith yn rhagor bydd Tîm Ymgysylltu yn cael ei sefydlu ar gyfer sicrhau hyn.

Mewn gwneud hyn bydd defnydd o Safle We y Cyngor, Newyddion Gwynedd, Rhaeadr, gwefannau cymdeithasol a phapurau lleol er mwyn lledaenu'r neges a chael trigolion i ddeall beth fydd y trefniadau newydd.
Un o'r prif faterion i'w gyfarch fydd sicrhau ei fod yn hawdd i drigolion gysylltu â thalu am y gwasanaeth. Wedi ei gyflwyno a dros amser, mae'n debyg bydd angen newid i'r cylchdeithiau casglu

oherwydd newid yn y cyfaint gesglir. Er hyn, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw at y drefn bod pob casgliad h.y. gwastraff bwyd, deunyddiau ailgylchu, gwastraff gweddilliol a gardd, yn digwydd ar yr un diwrnod casglu.

**4.8 Effaith ar Berfformiad Ailgylchu'r Cyngor Gwynedd**

Rhagwelir gostyngiad yn y tunelledd gesglir o wastraff gardd ar gyflwyno’r newid a bydd gan hyn effaith, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf o’i gyflwyno, ar ein perfformiad ailgylchu. Gall hyn greu hyd at 3% o ostyngiad yn ein canran ailgylchu, a rhaid sicrhau nad ydym yn gostwng o dan y targed statudol o 58% rhag denu dirwyon ar y Cyngor.

O’r mesurau sydd wedi ei gynllunio dan ein Strategaeth Wastraff, rhagwelir proffil fel a ganlyn o ran ein perfformiad ailgylchu sirol ar wireddu’r newid i gasglu gwastraff gardd:.

| **Blwyddyn** | **Targed Statudol** | **Perfformiad Rhagwelir** | **Mesurau Perthnasol** |
|---|---|---|---|
| **2015/16** | **58%** | 58.75% | |
| **2016/17** | | 59.8% | |
| **2017/18** | | 58.5% | • Codi ffi ar wastraff gardd gostyngiad hyd at 3% mewn perfformiad |
| **2018/19** | | 63% | • 1% cynnydd mewn perfformiad o ganlyniad i gynnydd mewn gwastraff gardd<br>• Cynllun Rhanbarthol (ymdrin â gwastraff gweddilliol) yn weithredol |
| **2019/20** | **64%** | 67% | |

Felly, er y gostyngiad yn y flwyddyn gyntaf o’i gyflwyno, rhagwelir na fyddwn yn gostwng o dan y targed statudol o 58% yn ystod y cyfnod sy’n arwain at y targed statudol nesaf yn 2019/20 o 64% ailgylchu. **Bydd angen monitro hyn yn hynod ofalus ar ei gyflwyno.**

**4.9 Amserlen Cyflwyno'r Newid**

Mewn cyflwyno'r newid, mae manteision o gael trefn yn seiliedig ar y flwyddyn galendr, sef i gychwyn 1af Ionawr, 2017. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r amser tawelaf o ran casglu, a mewn digon o amser cyn y tymor tyfu, ac yn hwyluso sefydlu a gweithredu trefn labeli am y flwyddyn. Byddai hyn a manteision amlwg o ran sicrhau cyflawni'r arbedion disgwyliedig yn y flwyddyn ariannol 2017/18. I gyflawni hyn, bydd angen casglu a derbyn y taliadau ffi rhwng mis Hydref a chanol Rhagfyr 2016.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Y Pwyllgor Craffu i ystyried yr opsiynau ar gael i gyflawni'r newid ac i gynnig unrhyw argymhellion fyddai'n gwella ar yr hyn awgrymir ar gyfer gweithredu'r newid a chyflawni'r arbedion disgwyliedig yn 2017/18.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD** | **19 Mai 2016** |
| **TEITL** | **Strategaeth "Mwy na Llyfrau" : Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Catrin Thomas, Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Ioan Thomas** |
| **PWRPAS** | **Craffu'r broses sydd wedi ei dilyn ar gyfer llunio'r strategaeth.** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn un o gyfarfodydd rhag-baratoi y Pwyllgor Craffu Cymunedau mae'r aelodau yn awyddus i graffu y broses sydd wedi ei dilyn ar gyfer llunio Strategaeth a Chynllun Darparu ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae darparu Gwasanaeth Llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd yn dymuno ei ddefnyddio' yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

2.2 Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLlCC) yn asesu a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Caiff yr awdurdod ei asesu yn flynyddol yn erbyn y safonau hyn. Mae'r Safonau hefyd yn rhoi arweiniad i awdurdodau fel Cyngor Gwynedd ar yr hyn y mae disgwyl iddynt ei ddarparu gan eu Gwasanaeth Llyfrgell er mwyn cyfarch anghenion a disgwyliadau trigolion lleol.

2.3 Nododd Asesiad Safonau 2012/3 Cyngor Gwynedd bod **lefel staffio isel iawn** y gwasanaeth, o'i gymharu â'r safon cenedlaethol, yn debygol o amharu ar allu'r gwasanaeth i gyflenwi gwasanaeth cynhwysfawr. Yn sgil hynny aethpwyd ati i adolygu'r Gwasanaeth.

2.4 Cwblhawyd adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell yn 2013-2014 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol o Aelodau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd parhau i gynnal y gwasanaeth llyfrgell yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy wrth gynllunio i'r dyfodol, yn arbennig oherwydd y lefel staffio isel. Nododd yr adolygiad hefyd nad oedd y gwasanaeth ar ei ffurf bresennol yn barod i ymateb i **her y datblygiadau digidol**, ac i newidiadau yn arferion darllen a chwilio am wybodaeth gan ddefnyddwyr.

2.5 Argymhellodd y Panel Ymgynghorol fod angen datblygu Strategaeth Llyfrgell fyddai'n cynnwys dull darparu i gyfarch anghenion y Safonau Llyfrgell, ymateb i **newid yn arferion darllen** a chanfod gwybodaeth defnyddwyr.

2.6 Ers diwedd 2014 mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi bod yn gweithio ar dynnu Strategaeth Llyfrgell ynghyd a hynny yn ystod cyfnod ariannol heriol i'r awdurdod.

2.7 Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Cabinet gynnig arbedion effeithiolrwydd i sefydlu "Cyfeiriad Strategol a Model darparu Newydd i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd", gan ofyn i'r Gwasanaeth gyflwyno achos fusnes manwl i'r Cabinet cyn eu gweithredu a sicrhau asesiad cydraddoldeb cynhwysfawr o effaith unrhyw newid posib.

2.8 Aeth y Gwasanaeth Llyfrgell ati i lunio Strategaeth Llyfrgell ac asesiad effaith cydraddoldeb i gyfarch argymhellion yr adolygiad a'r cyfyngiadau cyllidol drwy gyfundrefn arbedion effeithiolrwydd y Cyngor.

**3. Strategaeth "Mwy na Llyfrau": Ymgynghoriad Cyhoeddus Mai i Gorffennaf 2015.**

3.1 Lluniwyd Strategaeth "Mwy na Llyfrau" a cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn a syniadau trigolion, defnyddwyr a phartneriaid yn ystod Mai - Gorffennaf 2015.

3.2 Cafwyd ystod o argymhellion gan yr ymgynghorwyr oedd yn tynnu ynghyd yr adborth a gasglwyd gan y cyhoedd a'n partneriaid a cyflwynwyd hwy i'r Gwasanaeth ym mis Medi 2015.

3.3 Nododd yr ymgynghorwyr fod angen addasu'r weledigaeth a chryfhau rhai o'r blaenoriaethau. Nododd yr ymgynghorwyr hefyd nad yw parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy, ond fod amharodrwydd cyffredinol ymysg y cyhoedd i weld unrhyw newid i'r rhwydwaith o lyfrgelloedd, hyd yn oed mewn cyd-destun ariannol heriol. Un o argymhellion yr ymgynghorwyr oedd y dylid, yn ogystal â chynnal naw prif lyfrgell, ystyried cynnig "sefydlu llyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad yr awdurdod" yn yr wyth lleoliad sydd gyda llyfrgell ar agor am lai nag 20 awr.

3.1 Ym mis Tachwedd 2015 penderfynodd y Cabinet i ohirio'r "*penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd".* Roedd y Cabinet o'r farn fod angen ystyried canlyniadau Her Gwynedd a blaenoriaethau pobl Gwynedd cyn symud ymlaen gyda datblygu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" y Gwasanaeth Llyfrgell a model darparu i gyflawni'r strategaeth honno.

**4. Her Gwynedd – Medi 2015 i Mawrth 2016.**

4.1 Rhwng Medi a Rhagfyr 2015, dechreuodd y Cyngor ar y broses o adnabod toriadau posib i wasanaethau drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' ledled yr awdurdod. Yn dilyn penderfyniad Cabinet (16 Chwefror 2016) penderfynodd y Cyngor Llawn o aelodau (3 Mawrth 2016) i gefnogi **toriad o 25% (£65,000) ar y gyllideb prynu llyfrau o Ebrill 2016 ymlaen.**

4.2 Penderfynodd y Cyngor Llawn na ddylai'r Gwasanaeth Llyfrgell wynebu toriad uwchlaw y targed arbedion effeithiolrwydd i'w chyllideb. Fel mae strategaeth ariannol y Cyngor yn nodi mae disgwyl fod gan y gwasanaeth gynllun effeithlonrwydd i sicrhau arbedion o £101,370,

drwy adolygu'r ddarpariaeth llyfrgelloedd yn y sir. Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Her Gwynedd yn cadarnhau eu bod yn fodlon gweld newid i'r rhwydwaith o adeiladau llyfrgell ond nid oeddent yn dymuno i weld yr awdurdod yn mynd ymhellach. Nodwyd y dylai'r Gwasanaeth ystyried, wrth ddatblygu'r cynllun darparu, pa mor anodd yw hi i ardaloedd gwledig ddarganfod gwirfoddolwyr a hefyd ystyried effaith ar y gwahanol grwpiau oedran fel sydd wedi ei adnabod yn yr asesiad cydraddoldeb.

4.3 Roedd yr ymatebion i Her Gwynedd hefyd wedi dangos cefnogaeth i warchod y gwasanaeth teithiol.

## 5. Adolygu Strategaeth "Mwy na Llyfrau"

5.1 Yn sgil penderfyniadau Her Gwynedd ac i ymateb i'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith cydraddoldeb mae'r Gwasanaeth wedi diwygio ac addasu'r strategaeth.

5.2 Mae'r Strategaeth yn nodi **gweledigaeth** i'r Gwasanaeth Llyfrgell sef "Gwella ansawdd bywyd trigolion Gwynedd trwy gyflenwi gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithiol";

5.3 **Amcanion** "Mwy na Llyfrau" fydd

- Hyrwyddo darllen a mynediad at ddeunydd print a digidol i ddefnydd addysgol, hamdden ac iechyd a lles
- Darparu a chyfeirio trigolion at adnoddau gwybodaeth a darllen o'r ansawdd gorau
- Cefnogi a hybu'r defnydd o'r gwasanaeth a'i adeiladau fel mannau cymunedol anffurfiol a ffurfiol aml bwrpas a gwasanaethau y tu hwnt i lyfrau

5.4 Mae'r Strategaeth hefyd yn argymell fod y Gwasanaeth Llyfrgell yn canolbwyntio ar bedwar **maes blaenoriaeth** i'r gwasanaeth sef,

- y cynnig darllen
- y cynnig gwybodaeth,
- y cynnig iechyd a lles
- a'r cynnig digidol

5.5 Er mwyn cyflawni'r Strategaeth hon oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael mae'r strategaeth yn argymell categoreiddio'r math o ddarpariaeth / llyfrgell sydd ei angen ar draws y sir.

5.6 Mae'r Strategaeth hon yn awgrymu categorïau darpariaeth sy'n defnyddio ymarfer da sydd wedi ei adnabod gan Lywodraeth Cymru mewn rhannau eraill o'r wlad ac wedi eu haddasu i gyd-destun gwledig Gwynedd.

5.7 Mae'r categorïau darpariaeth ar gyfer Strategaeth "Mwy na Llyfrau" yn cymryd ystyriaeth o'r canlynol :

- Poblogaeth a phatrymau demograffig

- Patrwm defnydd gan aelodau cyfredol llyfrgelloedd
- Pellter o lyfrgell (yn arbennig felly yr angen i Gyngor Gwynedd sicrhau fod o leiaf 70% o'r aelwydydd o fewn 3 milltir neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i adeilad llyfrgell sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arosfan llyfrgell deithiol.
- Tueddiadau perfformiad e.e. nifer yr ymweliadau a benthyciadau fesul awr.
- Ystyriaethau cydraddoldeb e.e. grwpiau oedran 0-14 a rhai dros 65 / Iaith
- Amddifadedd a Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus

5.8 Mae'r Strategaeth felly yn argymell symud i ddarpariaeth sy'n seiliedig ar :-

A. **Llyfrgelloedd Dalgylch**
B. **Llyfrgelloedd Cymunedol o dan reolaeth y Cyngor**
C**. Gwasanaethau Teithiol**
Ch. **Ddolen neu Gyswllt Cymunedol**

5.9 Gan ddefnyddio ystadegau defnydd y llyfrgelloedd presennol (Gweler atodiad 1) yn erbyn diffiniadau'r categorïau a argymhellir mae'r Strategaeth yn cynnig cynnal naw Llyfrgell Dalgylch, pedair Llyfrgell Gymunedol a Gwasanaethau Teithiol fel y ffordd ddarparu fwyaf cynhwysfawr ac effeithlon ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

5.10 Gweler ddisgrifiad o pob categori yn atodiad 2.

5.11 Mae'r diffiniadau a awgrymir ar gyfer pob categori yn golygu, os y'i mabwysiedir, y bydd **newid yn digwydd ar draws y rhwydwaith bresennol** o lyfrgelloedd. Bydd yn golygu rhesymoli a chwtogi oriau agor ymysg y llyfrgelloedd dalgylch, rhesymoli oriau a newid mewn trefniadau rheoli adeiladau gyda'r llyfrgelloedd cymunedol, ac addasu lleoliadau ac amseru arosfannau y Gwasanaethau Teithiol.

5.12 Mae defnyddio'r categoreiddio hwn yn adnabod y lleoliadau hynny nad oes modd i'r Gwasanaeth Llyfrgell barhau i'w cynnal fel ag y maent ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig mewn pedwar cymuned fod y ddarpariaeth bresennol o gynnal gwasanaeth llyfrgell o adeilad yn dod i ben, ond oherwydd tebygrwydd effaith cymdeithasol hyn cynigir y categori 'Dolen / Cyswllt Cymunedol' er mwyn lliniaru'r effaith ar y gymuned ac er mwyn cynnal mynediad trigolion y gymuned honno drwy ddulliau amgen i'r gwasanaeth.

5.13 Gweler copi o'r Strategaeth "Mwy na Llyfrau" yn atodiad 3 a gaiff ei adolygu yn dilyn y camau nesaf ( fel y'i amlinellir isod).

**6. Camau Nesaf**

6.1 Mae'r Gwasanaeth bellach yn cynllunio i drafod y Strategaeth, fel ag y mae erbyn hyn, gyda'r cymunedau perthnasol. Bydd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr wyth cymuned yr ydym yn argymell newid i'r ffordd yr ydym yn darparu'r gwasanaeth. Bydd y cam yma o'r broses yn fodd o ddiweddaru'r cymunedau o'n

gwaith cynllunio, yn fodd o gasglu eu hadborth cychwynnol i'r hyn yr ydym yn ei argymell, ac yn gyfle i'r cymunedau gynnig awgrymiadau i ni eu sgopio ar y cyd.

6.2 Mae'r trafodaethau hyn wedi eu cynllunio i gynnwys yr aelod lleol, y cyngor cymuned / thref perthnasol, ac yna agor trafodaeth gyda partneriaid yn ôl yr angen.

6.3 Yn dilyn y trafodaethau cychwynnol hyn bydd yr Aelod Cabinet yn argymell Strategaeth "Mwy na Llyfrau" i'r Cabinet am benderfyniad terfynol ym mis Medi 2016.

7. **Casgliadau**

7.1 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried y camau sydd wedi ei cymryd i ddatblygu'r strategaeth a'r rhesymeg dros yr hyn a argymhellir yn y Strategaeth "Mwy na Llyfrau"

Atodiad 1 **Defnydd Llyfrgelloedd Gwynedd (Ystadegau 2014/15)**

| **Llyfrgell** | **Poblogaeth Gwasanaethir** | **Ymweliadau Blynyddol** | **Benthyciadau Blynyddol** | **Sesiynau Cyfrifiadur** |
|---|---|---|---|---|
| **Dolenni neu Bwyntiau Cyswllt** | | | | |
| | | | | |
| Harlech | 2061 | 2624 | 6345 | 656 |
| Penrhyndeudraeth | 1618 | 3484 | 6890 | 717 |
| Deiniolen | 2456 | 2522 | 4084 | 565 |
| Llanberis | 1848 | 6266 | *10,096* | 359 |
| | | | | |
| **Llyfrgelloedd Cymunedol** | | | | |
| | | | | |
| Criccieth | 2781 | 8918 | 15,222 | *776* |
| Nefyn | 2870 | *5902* | 11,117 | 1304 |
| Bethesda | 4019 | 7150 | 12,715 | 2895 |
| Penygroes | 5489 | 12922 | 19,217 | 4438 |
| | | | | |
| **Llyfrgelloedd Dalgylch** | | | | |
| | | | | |
| Abermaw | 3556 | 20852 | 30,712 | 4658 |
| Bala | 3453 | 19,630 | 23,844 | *2351* |
| Tywyn | 4226 | 24258 | 31,911 | 9379 |
| Blaenau Ffestiniog | 4516 | 24284 | 28,808 | 7591 |
| Dolgellau | 3802 | 24,284 | 39,381 | 10517 |
| Porthmadog | 5525 | 20806 | 38,757 | 5534 |
| Pwllheli | 8805 | 26104 | 45,017 | 7223 |
| Caernarfon | 22687 | 77766 | 119,277 | 30708 |
| Bangor | 23056 | 82264 | 100,798 | 27843 |

Atodiad 2

| Categori : | Disgrifiad | | |
|---|---|---|---|
| **Llyfrgell Dalgylch** | • Gwasanaethu poblogaeth dros 5,000 o fewn dalgylch 3 milltir neu chwarter awr o deithio trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Y llyfrgell wedi'i lleoli mewn ardal prif ganolfan siopa i'r dalgylch.<br>• Oriau agor o leiaf 20 awr hyd at o leiaf 40 awr yn y canolfannau mwyaf<br>• Arwynebedd llawr - o leiaf 150m2 i lyfrgell sydd yn gwasanaethu poblogaeth lai na 20,000 ac o leiaf 300m2 i lyfrgell yn gwasanaethu dros 20,000<br>• O leiaf 10,000 o eitemau o stoc mewn amrywiaeth eang o fformatau, gyda rhwng 10,000 a 15,000 o eitemau o stoc yn y llyfrgelloedd mwyaf.<br>• Cyswllt i e-lywodraeth ac e-ddysgu a darpariaeth casgliadau arbenigol, ee - Hanes Lleol, Iechyd a Lles, setiau o lyfrau ar gyfer Grwpiau Darllen,<br>• O leiaf 8 cyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd gydag o leiaf 16 cyfrifiadur yn y llyfrgelloedd mwyaf<br>• Gwasanaeth diwifr yn rhad ac am ddim a gofod i ddefnyddio glinfyrddau a thabledi personol<br>• Pwyntiau hunanwasanaeth<br>• Gofod cynnal gweithgareddau o fewn yr adran Plant neu fynediad at ofod priodol<br>• Gofod, neu fynediad at ofod, ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol a chelfyddydol<br>• Ystyriaeth barhaus i gyd-leoli â gwasanaethau neu bartner cyffelyb sy'n ymwneud â'r cyhoedd | Ymweliadau Blynyddol dros 20,000<br><br>Benthyciadau Blynyddol dros 25,000<br><br>Defnydd Cyfrifiaduron dros 5,000 sesiwn<br><br>Costau'r pen fesul defnyddiwr yn llai na £2.00 ar gyfartaledd | Bangor<br>Caernarfon<br><br>Porthmadog,<br>Pwllheli<br><br>Bala<br>Bermo<br>Blaenau,<br>Dolgellau,<br>Tywyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Llyfrgell Gymunedol** | • Gwasanaethu poblogaeth rhwng 2,000 a 5,000 o fewn 3 milltir<br>• Y llyfrgell wedi'i lleoli ger canol y dref/ pentref neu yn / wrth ymyl canolfan gymunedol/ysgol<br>• Oriau agor : lleiafswm o 15 awr<br>• Arwynebedd llawr - o leiaf $75m^2$<br>• O leiaf 5,000 o eitemau o stoc<br>• O leiaf 6 cyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd<br>• Gwasanaeth diwifr yn rhad ac am ddim<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein<br>• Elfen hunanwasanaeth yn dibynnu ar anghenion lleol ac ar unrhyw ddefnydd arall mae'r gymuned yn ei wneud o'r safle.<br>• Man i gynnal cyfarfodydd cymunedol neu ddigwyddiadau pan fo hynny yn bosib<br>• Wedi'i chyd-leoli â phartneriaid o'r cyngor neu'r gymuned pan fo hynny yn bosib<br>• Defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau atodol yn unig | Ymweliadau Blynyddol - dros 10,000<br><br>Benthyciadau Blynyddol - dros 15,000<br><br>Defnydd Cyfrifiaduron - dros 1500 sesiwn<br><br>Costau'r pen fesul defnyddiwr yn llai na £3.00 ar gyfartaledd | Bethesda<br>Penygroes<br><br>Cricieth<br>Nefyn |
| **Llyfrgelloedd Teithiol**<br>- **I'r Gymuned** | • Gwasanaethu Poblogaeth rhwng 200 a 1000 o fewn chwarter milltir o bellter cerdded<br>• Oriau mynediad - rhwng chwarter a tri chwarter awr.<br>• Dewisir arosfannau yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol, pellter o adeilad llyfrgell, mynediad at drafnidiaeth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - **i'r Cartref**<br><br>- **i Blant a Phobl Ifanc** | gyhoeddus ac ystyriaethau iechyd a diogelwch.<br>• Ymwelir yn fisol a phob cymuned<br><br>• Cynnir 'Gwasanaeth i'r Cartref' ar gyfer y rhai hynny sydd anabl ac felly yn gaeth i'w aelwydydd.<br>• Ymwelir yn fisol<br><br>• Un Cerbyd Plant a Phobl Ifanc (Lori Ni ) i'r awdurdod cyfan<br>• Ymwelir â phob ysgol gynradd i fenthyg llyfrau a phob ysgol uwchradd i gyflwyno gwybodaeth.<br>• Hyd ymweliad i ysgol yn seiliedig ar nifer disgyblion. | | |
| **Dolen / Cyswllt Cymunedol** | • Gwasanaethu poblogaeth rhwng 1000 – 2000 o fewn milltir o daith cerdded<br>• Cynnal Gwasanaeth clicio a chasglu gyda phartner a/neu'r gymuned leol<br>• Hunanwasanaeth fel prif elfen y ddarpariaeth gyda phartner / gymuned leol a pan fo hyn yn ymarferol<br>• Trefnu gwasanaeth amgen gan yr awdurdod drwy'r Gwasanaeth teithiol misol; Gwasanaeth i'r cartref, Gwasanaeth teithiol i blant<br>• Cyfrifiaduron gyda mynediad at y We ar gael i'r cyhoedd drwy asiantaeth arall wedi ei gefnogi gan yr awdurdod | Tystiolaeth isod fel sail newid y ddarpariaeth bresennol :-<br><br>Ymweliadau Blynyddol - llai na 10,000<br><br>Benthyciadau Blynyddol - llai na 10,000<br><br>Defnydd Cyfrifiaduron - llai na 1000 sesiwn<br><br>Costau'r pen fesul defnyddiwr : dros £3.00 | Deiniolen , Llanberis<br><br>Penrhyndeudraeth, Harlech |

Atodiad 3

**Mwy na Llyfrau :**

**Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth:**

**2017- 2020**

DRAFT

**Cyngor Gwynedd**

## 1. Cyflwyniad

Adolygodd Cyngor Gwynedd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth ar draws yr awdurdod yn ystod 2013-2014. Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu ynghyd barn defnyddwyr, cynghorwyr, staff a phartneriaid. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd parhau i gynnal y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy; a bod angen sefydlu cyfeiriad clir i'r Gwasanaeth wrth gynllunio i'r dyfodol gan ymateb i her datblygiadau digidol a chyfyngiadau cyllidol.

Yn dilyn gwaith yr adolygiad paratowyd Dogfen Ymgynghorol 'Mwy na Llyfrau' oedd yn amlinellu gweledigaeth a chynigion ar gyfer y dyfodol i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y Ddogfen Ymgynghorol yng Ngwanwyn a Haf 2015 er mwyn mesur effaith unrhyw newid posibl; ynghyd a rhoi cyfle i bobl leol rannu eu safbwyntiau a'u syniadau cyn bod unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu pennu.

Dylid nodi fod yr ymgynghoriad hwn wedi cymryd lle mewn cyfnod heriol iawn i'r Cyngor yn ariannol. Fel pob cyngor yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau sylweddol iawn yn y cyllid y mae'n ei gael tuag at dalu am wasanaethau lleol. Golyga hyn y bydd llawer llai o arian ar gael i dalu am y gwasanaethau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r cyfuniad o doriadau anferthol mewn cyllidebau a chynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cyhoeddus yn golygu bod Cyngor Gwynedd yn wynebu bwlch ariannol sy'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Golyga hyn y bydd angen i Gyngor Gwynedd ddarganfod ffyrdd newydd creadigol o ddarparu gwasanaethau lleol wrth i'r cyllid sydd ar gael leihau.

## 2. Beth mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ei wneud ar hyn o bryd?

Mae darparu Gwasanaeth Llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon' sydd yn annog a hyrwyddo oedolion a phlant i ddefnyddio'r gwasanaeth i'w eithaf yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Dros yr hanner canrif ddiwethaf, mae llyfrgelloedd cyhoeddus wedi esblygu yn sylweddol. Erbyn hyn maent yn darparu ystod eang o wasanaethau megis:-

- Benthyg Llyfrau ac e-lyfrau
- Benthyg DVDs a Gemau Cyfrifiadurol
- Benthyg CDs llyfrau llafar a Llyfrau Llafar ar-lein
- Defnydd o bapurau newydd a chylchgronau yn cynnwys mynediad ar-lein
- Defnydd o gyfrifiaduron gyda mynediad am ddim i'r we ac e-bost
- Defnydd o feddalwedd swyddfa a chyfleusterau sganio ac argraffu
- Mynediad am ddim i Di - Wifr i ddefnyddio eich dyfeisiadau eich hun
- Mynediad ar-lein i adnoddau gwybodaeth o ansawdd uchel
- Sesiynau cyflwyno Technoleg Gwybodaeth a chefnogaeth anffurfiol

DRAFT

- Cymorth i'r sawl sy angen gwybodaeth gan gynnwys chwilio am swydd
- Digwyddiadau a gweithgareddau
- Amseroedd stori , canu a rhigwm
- Grwpiau darllen iechyd a lles
- Ymweliadau awdur a darlithoedd llenyddol
- Her Darllen Haf i blant oedran cynradd
- Ystafelloedd cymunedol i'w defnyddio
- Mynediad at erthyglau ymchwil academaidd
- 'Cyflwyniadau galw heibio' i adnoddau dysgu gydol oes

Yn ystod 2014-15

- derbyniodd llyfrgelloedd Gwynedd dros 375,000 o ymweliadau,
- benthycwyd dros 630,000 o eitemau
- darparwyd dros 115,000 o sesiynau ar y cyfrifiaduron cyhoeddus
- darparwyd dros 12,500 o sesiynau Diwifr trwy wasanaeth Gwynedd Ddigidol.

Yn ein harolwg defnyddwyr diweddaraf yn 2013 roedd 95% o oedolion o'r farn bod y gwasanaethau'n dda neu'n dda iawn, a 92% o blant o'r farn bod eu llyfrgell yn 'dda'.

Mae darpariaeth Llyfrgelloedd Gwynedd ar hyn o bryd yn cynnwys 17 llyfrgell a 4 llyfrgell symudol – sydd yn cynnwys Gwasanaeth i'r Cartref a Llyfrgell deithiol i blant ac ysgolion.

**Llyfrgelloedd Sefydlog**

Mae rhwydwaith Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn cynnwys 17 llyfrgell. O'r rhain, ystyrir y llyfrgelloedd hynny sydd ar agor am fwy na 20 awr yr wythnos yn brif lyfrgelloedd ac fe'u lleolir yn Abermaw, Bala, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, a Thywyn.

Yn ategol i'r prif lyfrgelloedd mae 8 llyfrgell sydd ar agor am lai na 20 awr yr wythnos ym Methesda, Cricieth, Deiniolen, Harlech, Llanberis, Nefyn, Penygroes a Phenrhyndeudraeth,

**Llyfrgelloedd Teithiol**

Mae'r pedwar cerbyd Llyfrgell Deithiol Symudol yn cynnwys oddeutu 2,000 o eitemau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gynnwys nofelau a theitlau ffeithiol i oedolion; llyfrau plant a phobl ifanc; Llyfrau i fabanod a phlant oed meithrin ; llyfrau llafar a llyfrau print bras. Caiff y stoc ei newid yn gyson ac mae pryniant teitlau newydd yn cael ei hamserlennu drwy gydol y flwyddyn er mwyn amrywio i'r eithaf ystod ac amrywiaeth o deitlau sydd ar gael i'w dewis.

Gall defnyddwyr Llyfrgelloedd Teithiol gael mynediad at ddewis eang y Gwasanaeth Llyfrgell drwy'r system ceisiadau am ddim ble gall y staff llyfrgell gael copi o'r llyfr, llyfr llafar neu DVD

DRAFT

ac yn y blaen, y gwnaethpwyd cais amdano, oddi wrth un o'r llyfrgelloedd eraill a'i anfon at y darllenydd pan fydd y llyfrgell deithiol ar y daith ganlynol . Gall y staff llyfrgell hefyd ddelio ag ymholiadau gwybodaeth gyffredinol (hyd yn oed os bydd hyn yn golygu cysylltu â'r defnyddiwr dros y ffôn yn ddiweddarach). Mae mynediad i'r anabl ar gael drwy lifft i bob cerbyd .

Ymwelir ag oddeutu 150 o arosfannau Llyfrgell Deithiol ar hyn o bryd a cheir ymweliad bob mis.

Mae rhestr ddiweddaraf o arosfannau y llyfrgelloedd teithiol ar gael ar wefan y Gwasanaeth Llyfrgell.

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archifau/Llyfrgell-deithiol-a-gwasanaeth-ir-cartref.aspx

**Llyfrgell i'r Cartref**

Cynigir gwasanaeth llyfrgell i'r cartref, mewn achosion ble mae person yn: dioddef o anawsterau symudedd; methu cario eitemau; dioddef o salwch tymor hir; byw yn bell o fan gwasanaeth llyfrgell (sefydlog neu deithiol); ofalwr llawn-amser. Ymwelir ag aelodau yn fisol gan baratoi cyflenwad o eitemau sydd yn unol â phroffil dewis sydd wedi cytuno gyda'r defnyddiwr. I'r rhai hynny gyda nam golwg sylweddol trefnir gwasanaeth arbennig trwy'r RNIB a'r Gymdeithas Ddeillion leol.

Mae tua 300 yn derbyn gwasanaeth llyfrgell i'r cartref yn ystod blwyddyn.

**Llyfrgell Deithiol i Blant Ysgol**

Mae'r llyfrgell deithiol - Lori Ni - yn ymweld â phob ysgol o leiaf dwywaith y flwyddyn gyda chyfle i bob plentyn fenthyg adnoddau darllen hamdden yn bennaf. Mae eitemau yn cael eu dethol ar gyfer disgyblion 3-11 oed ac wedi eu dewis mewn ymgynghoriad a phlant, ac yn cefnogi llythrennedd a'r mwynhad o ddarllen.

Cynigir ystod eang o adnoddau arbennig gan gynnwys - Llyfrau Darllen Grŵp ; Bocsys Awduron ; Deunyddiau Clyweled ; Sachau Stori ; Help Llaw Mewn Llyfr sef casgliad o lyfrau yn delio gyda sefyllfaoedd arbennig i blant. Ymwelir yn dymhorol a phob un o'r 97 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## 3. Sut mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd yn perfformio ar hyn o bryd?

### *3.1 Cyfarch anghenion defnyddwyr.*

Caiff perfformiad llyfrgelloedd Cymru eu hasesu yn flynyddol yn erbyn Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn mesur os ydy'r awdurdod yn cyfarch anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn dilyn asesiad Llywodraeth Cymru yn 2012/3 oedd yn nodi bod lefel staffio isel iawn y gwasanaeth i gymharu â'r safon cenedlaethol yn debygol o amharu ar allu'r gwasanaeth i gyflenwi gwasanaeth cynhwysfawr aethpwyd ati i adolygu'r Gwasanaeth.

Cwblhawyd yr adolygiad yn ystod 2012-14 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol a dangosodd :-

- Bod Llyfrgelloedd Gwynedd yn perfformio yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Bod lefel boddhad Defnyddwyr o'r gwasanaeth yn uchel;
- Bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth benthyg llyfrau a darllen yn uchel, ond bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ar-lein yn gyffredinol isel;
- Bod nifer o ymweliadau gyda llyfrgelloedd Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Bod lefel staffio'r gwasanaeth yr isaf yng Nghymru ac yn fygythiad i gynaladwyedd y gwasanaeth;

Prif ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw yw nad yw parhau i gynnal y gwasanaeth fel y mae ar hyn o bryd yn gynaliadwy; a bod angen cyfeiriad clir i'r Gwasanaeth wrth gynllunio i'r dyfodol gan ymateb i her datblygiadau digidol a chyfyngiadau cyllidol.

Mae'r canlyniadau asesiad cenedlaethol diweddaraf - sef ar gyfer y cyfnod 2014-2015 yn nodi "Caiff problemau barhaus lefelau staffio isel ei nodi unwaith eto. O'i gymharu a pherfformiad cryf Gwynedd y llynedd, gallai perfformiad eleni fod yn dangos arwyddion o wasanaeth mewn sefyllfa fregus".

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Fframwaith Safonau ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/wpls/libraries-making-a-difference/?lang=cy

### *3.2 Cyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell*

Fel sydd wedi ei nodi yn y cyflwyniad mae awdurdodau lleol mewn cyfnod heriol iawn o ariannu gwasanaethau cyhoeddus a bydd y gwasgu ar arian cyhoeddus yn parhau i'r dyfodol. Wrth ddatblygu'r Gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol bydd angen ystyried cyflawni'r strategaeth newydd oddi fewn i'r gyllideb fydd ar gael.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae’r Gwasanaeth Llyfrgell wedi adolygu ei drefniadau ac mae’r arbedion ariannol canlynol wedi ei gwireddu:-

| | | |
|---|---|---|
| *2011-12* | *Rhesymoli Costau Glanhau a deunydd Clyweled* | *£15,000* |
| *2012-13* | *Adolygu’r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol* | *£32,000* |
| *2013-14* | *Ail-strwythuro Tîm Rheoli’r Gwasanaeth* | *£33,000* |
| *2014-15* | *Trefn Rhybuddion Hwyr* | *£4,000* |
| *2014-15* | *Pwyslais ar bryniant Llyfrau clawr meddal ac e-lyfrau* | *£11,000* |
| *2015-16* | *System Gyfrifiadurol Gogledd Cymru i Lyfrgelloedd* | *£20,000* |
| *2015-16* | *Trefniadau Cydweithio Rhanbarthol ar gyfer Uned Lyfryddol* | *£10,000* |

Mae’r Gwasanaeth Llyfrgell yn wynebu cyfyngiadau ariannol pellach i’r dyfodol yn benodol yr angen i ganfod arbedion effeithiolrwydd gyfwerth a £101,000 erbyn Mawrth 2018.

Mae’r Gwasanaeth Llyfrgell hefyd wedi gweld toriad o 25% ( £65,000) yn ei gyllideb i brynu stoc ac adnoddau yn ystod 2016-17.

Bydd y Strategaeth hon yn cyfarch y cyd-destun ariannol hwn, a noder fod yr hyn y gellir ei ddarparu yn unol a’r adnoddau sydd ar gael i’r dyfodol.

DRAFT

**4. Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd i'r dyfodol.**

**4.1 Y weledigaeth i'r dyfodol - "Llyfrgelloedd Gwynedd – Mwy na Llyfrau".**

Gweledigaeth y Gwasanaeth yw 'Gwella ansawdd bywyd trigolion Gwynedd trwy gyflenwi gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithiol' . Yr amcanion craidd yw -

- Hyrwyddo darllen a mynediad at ddeunydd print a digidol i ddefnydd addysgol, hamdden ac iechyd a lles
- Darparu a chyfeirio trigolion at adnoddau gwybodaeth a darllen o'r ansawdd gorau
- Cefnogi a hybu'r defnydd o'r gwasanaeth a'i adeiladau fel mannau cymunedol anffurfiol a ffurfiol aml bwrpas a gwasanaethau y tu hwnt i lyfrau

Bydd y weledigaeth yma yn canolbwyntio ar 4 maes gwasanaeth allweddol sef:-

**Datblygu sgiliau digidol**

Mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol i gefnogi pobl i ddatblygu sgiliau digidol; a'u cefnogi i gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys y gwasanaeth llyfrgell rithiol lle mae'n bosib dewis llyfr drwy'r we. Bydd y gwasanaeth digidol fydd ar gael i ddefnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnwys:

- Mynediad drwy'r we 24/7 i'r gwasanaeth llyfrgell ar gyfer rheoli cyfrif, cadw ac adnewyddu eitemau, a chwilio'r catalog ar-lein
- Modd i'r cyhoedd ymuno a chysylltu â'r gwasanaeth ar-lein / e-bost / facebook / twitter
- Darparu mynediad i'r we am ddim gan hybu cynhwysiant cymdeithasol
- Datblygu'r defnydd o, a mynediad at, dechnolegau symudol (e.e.tabledi)
- Darparu gweithgareddau ac ymgyrchoedd i ddatblygu sgiliau a chynhwysiad digidol ymysg unigolion (e.e. cyrsiau llythrennedd gwybodaeth ; TG sylfaenol)

**Mynediad at wybodaeth**

Mae gan lyfrgelloedd rôl yn cefnogi pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein yn y meysydd sy'n hanfodol i fywyd unigolion a'r economi leol - fel gyrfaoedd, swyddi, iechyd , gwybodaeth ariannol a budd-daliadau. Nod y gwasanaeth yw:

- Cynorthwyo pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein gan gynnwys Universal Job Match a Chredyd Cynhwysol
- Cynghori pobl ar ganfod gwybodaeth
- Gweithredu fel 'Porth Gwybodaeth' i ddod a gwybodaeth gyhoeddus a gwybodaeth llywodraeth i gyrraedd trigolion lleol;

DRAFT

**Hybu Iechyd a Lles Unigolion a Chymunedau**

Mae gan lyfrgelloedd rôl yn cefnogi pobl i fyw yn iach ac i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Cyfrannu at hybu cydlyniant cymunedol, llesiant iechyd meddwl, cynhwysiant cymdeithasol, a'r iaith Gymraeg. Nod y gwasanaeth yw darparu:

- Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref i bobl fregus
- Llyfrau ar Bresgripsiwn Oedolion a Theuluoedd
- Mynediad ar-lein a gynorthwyir a gweithgareddau hybu iechyd y cyhoedd
- Cynllun Gwybodaeth a Chyngor Iechyd a Lles (Macmillan ac eraill)
- Grwpiau Darllen Iechyd a Lles
- Detholiad o'r gorau o lenyddiaeth Cymraeg a chasgliadau dysgwyr Cymraeg

**Hyrwyddo Darllen**

Mae gan lyfrgelloedd ddyletswydd i sicrhau mynediad am ddim i ddeunydd darllen ac i hyrwyddo darllen plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at godi lefelau llythrennedd ymhlith plant a phobl ifanc trwy gynnig mynediad at adnoddau print a e-lyfrau am ddim. Nod y gwasanaeth yw -

- Cynnig llyfrau (print a digidol) am ddim ac adnoddau darllen
- Cynnig gofod cymunedol i drafod llyfrau a darllen
- Darparu mynediad i lyfrau a chylchgronau ar-lein
- Cefnogi'r ymgyrch - Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell
- Darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd targed megis plant a'u teuluoedd; y dall a'r rhannol ddall.

**4.2 Sut y byddwn ni'n darparu y Gwasanaeth Llyfrgell i gyflawni'r Weledigaeth?**

Casglwyd barn trwy'r ymgynghoriad ar y strategaeth er mwyn mesur effaith unrhyw newid posibl; ynghyd a rhoi cyfle i bobl leol rannu eu safbwyntiau a'u syniadau cyn bod unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu pennu. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei addasu gyda thystiolaeth a gasglwyd wrth gyflawni gwaith yr ymgynghoriad cyhoeddus i ffurfio'r asesiad effaith terfynol cyn gwneud penderfyniad.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi categoreiddio'r math o ddarpariaeth / llyfrgell y dymunwn ei weld ar draws yr awdurdod gan geisio cyfarch disgwyliadau trigolion a defnyddwyr o'r gwasanaeth, a'r disgwyliadau statudol. Mae'r categorïau hefyd yn cymryd ystyriaeth o'r canlynol :

- Poblogaeth a phatrymau demograffig
- Patrwm defnydd gan aelodau cyfredol llyfrgelloedd a phellter o lyfrgell

- Tueddiadau perfformiad e.e. nifer yr ymweliadau a benthyciadau fesul awr.
- Ystyriaethau cydraddoldeb e.e. grwpiau oedran 0-14 a rhai dros 65 / Iaith
- Amddifadedd a Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus

Mae’r categorïau wedi eu llunio o ymarfer da, ac yn ystyried argymhellion gan Lywodraeth Cymru yn eu hadroddiad diweddaraf ar ddyfodol gwasanaethau llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru ‘Pennu Cwmpas Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Newydd i Gymru’

Mae’r Strategaeth hon yn argymell symud i batrwm darparu sy’n cynnwys :

A. **Llyfrgell Dalgylch -** poblogaeth dros 5,000 o fewn dalgylch 3 milltir neu chwarter awr o deithio trafnidiaeth gyhoeddus

B. **Llyfrgell Gymunedol o dan reolaeth y Cyngor** - poblogaeth rhwng 2,000 a 5,000 o fewn 3 milltir

C**. Gwasanaethau Teithiol** - i gymunedau llai na 1000 poblogaeth, i’r cartref ar gyfer yr anabl a’u gofalwyr a drwy ymweliadau gyda phob ysgol i blant a phobl ifanc.

Ch. **Ddolen neu Gyswllt Cymunedol** -poblogaeth rhwng 1000 – 2000 o fewn dalgylch hyd at 3 milltir heb orgyffwrdd dalgylch llyfrgell arall.

Drwy ddefnyddio meini prawf clir ar gyfer y categorïau mae’r strategaeth hon yn cynnig cynnal 9 Llyfrgell Dalgylch yn Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Abermaw ac Y Bala , 4 Llyfrgell Gymunedol yn Bethesda, Penygroes, Nefyn a Cricieth a Gwasanaethau Teithiol fel y ffordd ddarparu fwyaf cynhwysfawr ac effeithlon ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd oddi fewn i’r gyllideb sydd ar gael.

Mae’r Strategaeth yma yn golygu newid ar draws y rhwydwaith o lyfrgelloedd. Byddwn yn rhesymoli a chwtogi oriau agor ymysg y llyfrgelloedd dalgylch, yn rhesymoli oriau gyda’r llyfrgelloedd cymunedol ac yn adolygu arosfannau y Gwasanaethau Teithiol.

Mae defnyddio'r categoreiddio hwn fel sail i adolygu lleoliadau y llyfrgelloedd sefydlog hefyd yn adnabod y lleoliadau hynny nad oes modd i’r Gwasanaeth Llyfrgell barhau i’w cynnal fel ag y maent ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig mewn 4 cymuned fod y ddarpariaeth bresennol o gynnal gwasanaeth llyfrgell o adeilad pwrpasol yn dod i ben, ond oherwydd yr effaith cymdeithasol i hyn rydym yn cynnig categori Dolen / Cyswllt Cymunedol er mwyn lliniaru’r effaith ar y gymuned ac er mwyn cynnal mynediad trigolion y gymuned honno drwy ddulliau amgen i’r gwasanaeth.

Mae’r newid hyn yn cynnig gwasanaeth craidd sydd a’r gallu i wynebu her yr oes ddigidol. Mae’n ddyletswydd statudol ar yr awdurdod leol i hybu'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus - bwriedir felly cynnal cynllun i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael o lyfrgelloedd a cheisio cynnal ymgyrchoedd marchnata penodol dros gyfnod y strategaeth i gynyddu aelodaeth a defnydd .

DRAFT

**CYNLLUN GWEITHREDU O'R PWYLLGOR CRAFFU – (diweddariad 09.05.16)**

## A. GWAITH ATALIOL

| 1. Newidiadau yn y Gyfundrefn Les | Diweddariad |
|---|---|
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen galluogi pobl i osgoi mynd yn ddigartref yn sgil y newidiadau yn y Gyfundrefn Lles | |
| **Tystiolaeth** –<br><br>Gwybodaeth am her newidiadau lles, treth llofftydd, lleihad tebygol yng nghymorth Taliadau Tai Uniongyrchol a'r symud i Gredyd Cynhwysol<br>Tystiolaeth gan Adroddiad Sefydliad Bevan "Summer Budget 2015: What it means for Wales (July 2015)" sydd yn crynhoi:-<br><br>• Mae'r prinder o gartrefi fforddiadwy yn debygol o waethygu wrth i'r cyswllt rhwng budd-daliadau a chostau tai gael ei dorri.<br>• Gallai fod materion sylweddol i bobl ifainc di-waith sydd yn colli eu hawl i gael cymorth gyda chostau tai.<br>• Amser a ddengys sut y bydd pobl a'r marchnadoedd yn ymateb i'r newidiadau | Codi ymwybyddiaeth yn her barhaus. Hyd yma nid yw'r `Universal Credit' wedi ei gyflwyno'n llawn. Rydym yn edrych ar gyd-weithio hefo'r Cymdeithasau Tai i godi ymwybyddiaeth o'r Undeb Credyd fel dull diogel o dalu rhent.<br><br>Eitem i'w nodi ar raglen Partneriaeth Tai 22.06.16 i adnabod mesuriadau i'w cyflwyno. |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod yr Uwch Reolwr Tai yn arwain ar:-<br>a. Sicrhau cyhoeddusrwydd i effaith tebygol y newidiadau a'r cymorth sydd ar gael<br>b. Annog defnydd o'r System Undeb Credyd ar gyfer diogelu taliadau rhent | |
| **2. Gwasanaethau Cymodi** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br><br>Mae gwir angen gwella mynediad at wasanaeth cymodi er hyrwyddo gwaith ataliol i gyfarch materion allai arwain at ddigartrefedd yn fuan | • Gwaith mapio ynglŷn â mynediad at wasanaeth cymodi wedi cymeryd lle.<br>• Gisda a Y Bont yn gallu |

| | |
|---|---|
| **Tystiolaeth** –<br><br>Tystiolaeth gan asiantaethau a defnyddwyr ei bod yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaeth cymodi | darparu gwasanaeth am gost (spot purchase) fyddai ar gyfartaledd yn costio rhwng £700- £900 am becyn cymodi,<br>• Digartref (Ynys Môn) wedi derbyn cadarnhau gan Lywodraeth Cymru eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Nighstop yng Ngwynedd sydd hefyd yn gallu cynnig Cymodi. Fydd Staff Cyngor Gwynedd yn derbyn cyflwyniad i'r gwasanaeth yn eu cyfarfod tîm nesaf sef 17.5.16. |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod y Grŵp Gwasanaethau Ataliol a Llety Pobl Ifanc yn mapio'r gwasanaethau / broses cyfeirio am wasanaeth gyda golwg ar lunio cynigion i wella'r ddarpariaeth | |



**MYNEDIAD I'R SYSTEM**

| **3. Strwythur y Gwasanaeth Tai** | **Diweddariad** |
|---|---|
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen ymchwilio i Strwythurau Adrannau Tai mewn Awdurdodau eraill - e.e. Tîm Opsiynau Tai / Digartref i gyd o dan un tîm yn rhoi opsiynau tai | Yr Uned wedi casglu gwybodaeth gan Gyngor Conwy a Môn.<br>• Cyngor Conwy yn darparu gwasanaeth fel a nodi'r yn Atodiad A.<br>• Cyngor Môn wrthi'n gweithio ar newid eu ffordd o weithio ac yn edrych ar \`bands'.<br>• Un tîm sydd gan y ddau Gyngor gyda Thîm Opsiynau Tai a Digartrefedd yn eistedd o dan y tîm hynny.<br>• Hyn eisoes yn bodoli yng Ngwynedd ac rydym wedi |
| **Tystiolaeth** –<br>Derbyniwyd sylwadau ynglŷn â strwythurau awdurdodau eraill a'r posibilrwydd o gael un tîm yn rhoi opsiynau er gwneud y gwasanaeth yn fwy syml a chydlynol i ddefnyddwyr ** Noder - Gwynedd oedd un o'r cynghorau cyntaf i sefydlu Tîm Opsiynau** | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod yr Uned Strategol Tai yn casglu gwybodaeth am strwythurau Cynghorau eraill gyda golwg ar lunio cynigion i resymoli a symleiddio | |

| | |
|---|---|
| | paratoi dogfennau i'n partneriaid er mwyn iddynt ddeallt y drefn. Gweler Atodiad B. |
| **4. Ffurflenni a Dogfennau'r Cyngor** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen symleiddio ffurflenni yn y maes ac edrych ar y trefniadau ar gyfer eu cwblhau gan gofio amgylchiadau bregus rhai o'r sawl sydd yn eu cwblhau | • Tîm Opsiynau Tai wedi symleiddio'r ffurflen ac wedi cynnwys cyfarwyddiadau ar ochr y ffurflen i helpu unigolion sy'n eu cwblhau. |
| **Tystiolaeth** –<br>Ffurflen Tîm Opsiynau Tai (TOT) yn anodd ei gwblhau gyda defnyddwyr sy'n ddigartref neu mewn sefydliad llety a chefnogaeth. Nid oes gan y defnyddwyr y dogfennau tystiolaeth berthnasol bob tro ac, yn sgil hynny, nid yw'r cais yn gyflawn, ac ni roddir yr ymgeisydd ar y rhestr aros | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod y Tîm Opsiynau Tai yn ail-edrych ar eu ffurflenni gyda golwg ar eu symleiddio | |
| **5. Sefydlu Un Pwynt Cyfeirio** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen sefydlu ymagwedd gyfun wrth i bobl geisio mynediad at wasanaeth | • Wedi ymweld â Chyngor Conwy a Dinbych - angen rhwng £60k a £100k i sefydlu tîm o'r fath - nid oes arian na chyfiawnhad i wario yn yr hinsawdd bresennol.<br>• Un ffurflen cyfeirio wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth a darparwyr Gwynedd ac yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd.<br>• Anfonwyd i'r Fforwm Digartref am sylwadau - darparwyr i weld yn hapus hefo'r ffurflen drafft.<br>• Rydym yn awyddus i'w ddefnyddio fel cynllun peilot - rhag ofyn fydd angen newid/addasu. |
| **Tystiolaeth** –<br>Sylwadau defnyddwyr ynglŷn â gorfod cwblhau fwy nag un cyfweliad cyfeirio gyda thimau a phartneriaid gwahanol a chyflenwi'r un wybodaeth ddwywaith<br>Argraff bendant gan yr Ymchwiliad, er bod yr elfennau gwahanol o'r gwasanaeth yn gweithio'n dda, bod lle i gynyddu'r ymdeimlad o "un gwasanaeth" er lles y defnyddwyr | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod yr Uned Strategol Tai, Fforwm Digartref Gwynedd a'r Uned Cefnogi Pobl yn casglu gwybodaeth am drefniadau awdurdodau eraill i chwilio am ymarfer da o ran sefydlu un Pwynt Cyfeirio ar gyfer gwasanaethau | |

| | |
|---|---|
| | • Rhaid edrych ar lunio protocol Rhannu Gwybodaeth I gyd-fynd ar ffurflen cyfeirio. |
| **6. Gofal Cwsmer yn y Swyddfeydd** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen gwella’r ddarpariaeth i unigolion sydd yn cyflwyno’u hunain i’r Tîm Digartrefedd yn Swyddfa Penrallt, Caernarfon<br>**Tystiolaeth** –<br>Cymhariaeth gyda dogfen Shelter “Safon Triniaeth Cyfartal” o ran profiad cwsmer yn Swyddfa Penrallt, Caernarfon<br>Mae diffygion amlwg yn arbennig o ran y ddarpariaeth gyfweld yn nhermau preifatrwydd a chyfrinachedd<br>**Argymhelliad i’r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod  yr Uwch Reolwr Tai yn arwain gwaith i:-<br>a. wella’r eiddo a ddefnyddir gan y Tîm Digartrefedd yn Swyddfa Penrallt ar gyfer cyfweld unigolion<br>b. sicrhau cyfweliad wyneb yn wyneb gyda’r Tîm Opsiynau Tai yn ogystal â’r trefniant ffôn presennol | • Asesiad yn erbyn yr safonnau `Equal Ground’ gan Shelter yn cymeryd lle. Grŵp gwaith wedi ei sefydlu a chyfarfod hefo Shelter wedi ei drefnu yn ystod mis Mehefin.<br>• Swyddfa Arfon wedi cael sylw a bellach yn rhoi man diogel a phreifat i unigolion a staff cynnal cyfarfod.<br>• Yn anffodus nid yw Strwythur y Tîm Opsiynau Tai yn caniatáu i’r staff gyfarfod a’r ymgeiswyr. Ond mewn sefyllfaoedd eithriedig e.e. os oes anabledd wedi ei adnabod, fe all y staff gyfarfod ar unigolion. |

**B. CYFLENWAD**

| **7. Gwybodaeth am yr eiddo sydd ar gael** | **Diweddariad** |
|---|---|
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer cyfeirio pobl at eiddo addas ar eu cyfer | • Swyddog Datblygu Sector Breifat mewn swydd ers mis Tachwedd 2015 ac yn cysylltu â'r landlordiaid preifat.<br>• Cyfrifiadur ar gael yn yr ystafell ddiogel ac yn parhau i weithredu ar gael cyfrifiaduron yn yr ystafelloedd cyfweld eraill. |
| **Tystiolaeth** –<br>Cadarnhad trwy gyfweld nad oes rhestr gyfredol o eiddo preifat sydd ar gael wrth law i'r Tîm Digartrefedd | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod yr Uwch Reolwr Tai yn arwain ar:-<br>a. sefydlu bas-data o eiddo sydd ar gael y gellir cyfeirio ato ar unwaith neu o leiaf restr gyfredol o eiddo preifat a chyhoeddus allai fod ar gael gan landlordiaid preifat a chyhoeddus er mwyn eu holi ymhellach<br>b. gael mynediad at gyfrifiadur yn yr ystafell gyfweld er mwyn edrych gyda'r ymgeisydd yn syth. | |
| **8. Datblygu'r Sector Breifat** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen datblygu'r sector breifat a chael rhenti sy'n fforddiadwy | • Swyddog wedi ei benodi er mwyn cyd-weithio' ar sector - gwaith yn parhau ar ddatblygu pecynnau a be ellir ei gynnig.<br>• Cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r landlordiaid er mwyn trafod Rent Smart Wales. |
| **Tystiolaeth –**<br>• Rhenti sector breifat un uwch na'r Lwfans Tai Lleol.<br>• Defnyddwyr gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cael blaendal a / neu dalu'r gwahaniaeth mewn rhent allan o'i budd-dal | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod y Timau Digartrefedd a Cyflenwad a Gorfodaeth yn:-<br>a. ail gychwyn cyfarfodydd gyda landlordiaid preifat<br>b. datblygu Cynllun Aur / Arian / Efydd i landlordiaid dderbyn tenantiaid | |

<table>
<tr><th>9. Gwella’r amrediad o eiddo</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Canfyddiadau –<br>Mae angen gwella’r amrediad o eiddo sydd ar gael i gwrdd â’r gofyn</td><td rowspan="3"><ul><li>Anodd iawn cael eiddo ym Mangor gan fod landlordiaid yn derbyn oddeutu £110 yr wythnos ar gyfer un stafell wely. Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau er mwyn cael eiddo sy’n addas.</li><li>Rydym yn cynnal trafodaethau gyda CCG ynghlyn a darpariaeth eiddo ac yn ysytried symud at lesu er mwyn cael mwy o reolaeth. Byddwn hefyd yn pwyso i gael cynyddu nifer yr eiddo sydd wedi gostwng ers trosglwyddo</li><li>Tîm Atebion Tai yn cyd-weithio gyda’r tîm Tai Gwag er mwyn datblygu stoc tai o safon yng Ngwynedd.</li><li>Tîm Opsiynau Tai yn cyd-weithio hefo’r Cymdeithasau Tai er mwyn lleihau’r nifer o eiddo sy’n anodd ei osod. Eiddo ar gyfer 55+ yw rhan fwyaf o rhain neu dŷ 3 ystafell wely mewn ardal wledig.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth –<br>Cadarnhad o gyfweliadau am eiddo sydd yn anodd ei osod mewn rhai ardaloedd ac eiddo nad oes digon o ddarpariaeth ohono mewn eraill<br>Rhoddwyd sylw penodol i’r nifer uchel o eiddo gwag sydd dan reolaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd<br>Tystiolaeth a gyflynwyd gan y Cynghorydd Lesley Day ar yr hyn sy’n ymddangos fel gorddarpariaeth o gymharu â’r angen am lety wedi ei dargedu ar gyfer myfyrwyr a hynny mewn ardal lle mae problem “cysgu allan”</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad i’r Aelod Cabinet –<br>Argymhellir bod  y Gwasanaeth Tai yn:-<ol type="a"><li>annog landlordiaid i addasu eiddo anodd ei osod i’w  gwneud yn fwy addas i’r gofyn a gwneud defnydd o eiddo sydd ar gael (ee eiddo myfyrwyr ym Mangor)</li><li>dylai’r Adran gynnal trafodaethau buan gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd i wyntyllu’r rhesymau am y nifer a chydweithio i geisio atebion creadigol i’r broblem hynny</li><li>parhau i dargedu gwaith y Tîm Tai Gwag i gyfarch anghenion carfannau digartref</li></ol></td></tr>
<tr><th>10. Darpariaeth ar gyfer pobl 25+</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Canfyddiadau –<br>Mae diffyg darpariaeth llety ar gyfer dynion sengl 25+</td><td><ul><li>Gwaith yn parhau. Gweler sylwadau o dan bwynt 5</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Tystiolaeth** –<br>Defnyddwyr yn nodi nad oes ddigon o ddarpariaeth os yn ddyn sengl ac 25+.<br>Ddim i weld yn flaenoriaeth am dai cymdeithasol | uchod.<br>• Trafodaethau yn cymeryd lle gyda'r Cymdeithasau Tai er mwyn datblygu stoc i gyfarch yr angen. |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod y Timau Digartref ac Opsiynau Tai yn cydweithio efo'r Sector Breifat i geisio cynyddu'r cyflenwad ar gyfer dynion sengl 25+ | |

**CH. DARPARIAETH DROS DRO**

| **11. Llety mewn Argyfwng i bobl ifainc** | **Diweddariad** |
|---|---|
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen ymchwilio i leoliadau argyfwng tymor byr e.e, trwy edrych ar stoc Cartrefi Cymunedol Gwynedd a'r posibilrwydd o sefydlu cynllun "Night Stop / Crash Pad" yng Ngwynedd | • Trafodaethau wedi cymeryd lle gyda Digartref (Ynys Môn) i weithredu yng Ngwynedd. Maent wedi rhoi cais drwy arian A108 i Lywodraeth Cymru i weithredu yng Ngwynedd.<br>• Mae'r cais wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a gwaith ar fin cychwyn rhwng Cyngor Gwynedd a Digartref (Ynys Môn). |
| **Tystiolaeth** –<br>Mae prinder darpariaeth ar gyfer llety dros dro mewn argyfwng, yn arbennig i bobl ifainc | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir:-<br>a) bod y Grŵp Gwasanaethau Ataliol a Llety Pobl Ifanc yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth "Night Stop / Crash Pad" yn y sir<br>b) bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal trafodaeth benodol gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd am y defnydd o'i stoc i ddibenion digartrefedd | |
| **12. Storfa Symud Eiddo** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Dylid ymchwilio i sefydlu storfa symud a chadw eiddo dros dro | • Wedi monitro galw a dim tystiolaeth bresennol fod angen darpariaeth. Petai unigolion o dan ddyletswydd yr Uned Ddigartref yna mae trefniadau mewn lle i storio eiddo'r unigolion. |
| **Tystiolaeth** –<br>Sylwadau gan ddefnyddwyr a gweithwyr maes ynglŷn â diffyg darpariaeth storio tra mae unigolyn rhwng lleoliadau a dim cyllideb i dalu yn uniongyrchol | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod y Tîm Digartrefedd yn ymchwilio i'r posibilrwydd gan greu achos busnes i ddenu cyllideb pellach ar gyfer ariannu darpariaeth o'r fath a'r posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau presennol y Cyngor ar gyfer storio | |

**HOSTELI**

| 13. Darpariaeth Hosteli'r Cyngor | Diweddaraid |
|---|---|
| **Canfyddiadau** –<br>Mae cwestiwn am leoliad darpariaeth bresennol y Cyngor yng Nghorris a ond mae angen edrych ar y cyfleusterau yn nau hostel y Cyngor a'r angen i fuddsoddi a moderneiddio | • Adolygiad ar y gweill yn edrych ar cynaliadwyaeth yr hosteli - canolbwyntio ar Corris yn gyntaf. |
| **Tystiolaeth** –<br>Yn dilyn ymweliadau, mae angen gwella'r cyfleusterau. Mae safle Corris yn broblem o ran hygyrchedd ond y prif broblem ar y ddau safle yw'r cyfleusterau. Mae problem hefyd o ran hygyrchedd yr adeilad yng Nghorris i ddefnyddwyr gwasanaeth hyn ac anabl | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br>Argymhellir bod yr Uwch Reolwr Tai a'r Tîm Digartrefedd yn ceisio adnoddau i fynd i'r afael â'r materion hygyrchedd a chyfleusterau a allai, yn achos Corris, arwain at edrych am leoliad gwahanol | |
| **14. Ffioedd Hosteli** | **Diweddariad** |
| **Canfyddiadau** –<br>Mae angen gwaith ymchwil i'r anghysondebau mewn ffioedd gwasanaethau hosteli | Mae'r costau Rhent a Thaliadau Gwasanaeth wedi ei dderbyn ar gyfer:<br>• St Mary's - TGC<br>• Pendinas - TGC<br>• Plas Llwyd - TGC<br>• Lloches De Gwynedd - Gorwel<br>Dal angen:<br>• Hosteli'r Cyngor - Rhianfa a Noddfa<br>• Cymorth i Ferched Bangor<br>• GISDA<br>Disgwyl i'r dystiolaeth cael ei chwblhau cyn gwerthuso'r wybodaeth yn bellach. |
| **Tystiolaeth** –<br>Mae gan bob hostel (Cyngor a'i bartneriaid) swm rhent a thâl gwasanaeth gwahanol<br>Mae problem gwirioneddol ynglŷn â fforddiadwyedd rhenti ar gyfer rhai sydd ar fudd-daliadau (Mae Atodiad 8 yn dangos y math o lefelau o fudd-dal y mae modd ei dalu) | |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod y Timau Cefnogi Pobl a Digartrefedd yn ymchwilio i'r rhenti sydd cael eu gosod gan asiantaethau / y Cyngor | |

<table>
<tr><th>15. Hosteli’r Cyngor a’r Cymunedau Lleol</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Canfyddiadau –<br>Mae angen i’r Aelodau Lleol ymgyfarwyddo eu hunain gyda’r hosteli yn eu hardaloedd</td><td rowspan="3"><ul><li>Gwahoddiad wedi ei Estyn i’r Cynghorwyr lleol ac yn parhau yn agored iddynt ymweld ar hosteli.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth –<br>Yn ystod yr ymweliadau â hosteli’r Cyngor, nodwyd nad oedd rhai cynghorwyr lleol wedi ymweld â’r sefydliadau</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad i’r Aelod Cabinet –<br>Argymhellir bod yr Uwch Reolwr Tai yn trefnu i’r cynghorwyr lleol fynychu’r sefydliadau</td></tr>
<tr><th>16. Darpariaeth “Hwb”</th><th>Diweddariad</th></tr>
<tr><td>Canfyddiadau –<br>Mae angen ymchwilio i’r posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth fel yr Hwb / Hafod (Dinbych) yng Ngwynedd</td><td rowspan="3"><ul><li>Briff wedi ei ddatblygu ac wedi ei anfon i'r Asiantaethau Tai</li><li>Grŵp Cynefin wedi datgan diddordeb i gyd-weithio ar y prosiect</li><li>Adroddiad `model ariannol wedi mynd i’r cabinet ac wedi ei gymeradwyo. Plîs noder: rhestr cynlluniau heb eu blaenoriaethu. Dim cadarnhau ar hyn o bryd lle mae’r model Hwb/Hafod ar y rhestr.</li><li>Gwasanaeth ieuenctid yn edrych ar ei safle yng Nghaernarfon gyda’r posibiliad o roi cais am arian i’w ddiweddaru. Ni fydd yna unedau Llety a chefnogaeth ar y safle.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth –<br>Aelodau’r Ymchwiliad wedi gweld datblygiad arloesol Hwb a Hafod yn Ninbych</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad i’r Aelod Cabinet –<br><br>Argymhellir bod y Grŵp Gwasanaeth Ataliol a Gwasanaeth Llety Pobl Ifanc ar y cyd ag Economi yn trafod a oes modd datblygu achos busnes i sefydlu darpariaeth o’r fath gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fel partner</td></tr>
</table>

**Atodiad A**

**Cartrefi Conwy**

1. Stock transfer 8 mlynedd yn nol ;

2. Roedd yna 3,200 o geisiadau pam sefydlwyd y tîm ond ymhen 8 mis a lot o waith chwynu meant bellach i lawr I 820 o bobl ar y rhestr

3. 12 mis yn nol bu i'r Adran Ddigartref / Tîm Cefnogi Tenantiaid/ Tîm Gosodiadau a Rheoli Eiddo Preifat/Homefinder - sef y tîm sy'n gweinyddu'r gofrestr a gosod tai

4. Mynediad I'r gwasanaeth drwy ymweliadau neu gyswllt ffon gyda rhif 0300

5. 3 aelod staff yn delio a galwadau ac ymweliadau yn ymwneud a Homefinder (sef y gofrestr)

6. Nid ydym yn dosbarthu ffurflenni cofrestru ond yn mynd drwy'r ffurflen ar y ffon gyda'r ymgeisydd neu gwblhau yn ystod yr ymweliadau - nid ydym bellach yn printio ffurflenni - broses yn cymeryd oddeutu 20 munud y cais

7. Yn yr 20 mun meant yn gallu asesu'r angen am dy ac os ydynt yn gymwys i fod ar y gofrestr ai beidio

8. Os ddim yn gymwys yna fydda nhw'n rhoi cyngor a gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau posib eraill - sector breifat/enforcement os yw'r eiddo o gyflwr gwael ayb.

9. Gofynnir am wybodaeth gan ymgeiswyr sydd mewn band 1 yn unig ar y cam yma sef y grŵp client a nodi'r isod. Ag y swyddogion o'r adran ddigartref fyddai'n gwneud ymholiadau ar ran yr isod drwy gysylltu â DWP
   a. Rhai sydd yn symud ymlaen o Lety a chefnogaeth;
   b. Rhaid sydd eisiau eiddo llai oherwydd y dreth llofft

c. Rhai sydd gyda chyflwr Iechyd difrifol (Llythyr GP)  - ond yn edrych ar gyflogi OT i'r dyfodol
d. Rhai sy’n dioddef o drais yn y cartref ( nid oes angen cysylltiad lleol gyda’ grŵp client yma)

10. Nid ydym yn gofyn am unrhyw ddogfennau Cefnogol yn ystod y cyfnod asesu gan rai sydd mewn Band 2/3 a 4  a fyddai’r unigolion yn mynd ar y gofrestr yn syth- mae’r wybodaeth gefnogol yn cael ei gasglu gan yr Asiantaethau Tai cyn bod yr unigolyn yn cael cynnig swyddogol am Lety sydd wedi ei adnabod.
11. Maent yn cyfarfod gyda’r partneriaid/swyddogion gosod bob pythefnos er mwyn trafod achosion sydd wedi gofyn am adolygiad - cyfarfodydd yn gweithio yn dd iawn o ran cyd-weithio.

**Cynllun Sector Breifat - 3 Swyddog yn y tîm.**



12. 2 x swyddog sy’n rheoli 80 o eiddo PSL’s ar gyfer defnyddwyr sy’n ddigartref (Lease Agreement) - cytundeb gyda’r landlord fod y defnyddwyr yn cael cefnogaeth yn ymwneud a’u tenantiaeth.

13. 1 x swyddog sy’n rheoli cynllun lle mae unigolion mewn gwely a brecwast -e.e. helpu nhw i symud ymlaen/neu symud i eiddo dros dro sydd fwy addas.

14. Ar hyn o bryd mae ganddynt 25 uned (Social Lettings Scheme) gyda’r bwriad i gynyddu I 50 yn y flwyddyn newydd. Cynllun sy’n debyg iawn I Lettings Agency. Mae yna Gytundeb Rheoli mewn lle - ac mae CC yn codi % o  ffi ar incwm rent / casglu rhent a chostau rheoli’r eiddo.

15. Edrych am symud i system Open Housing yn y dyfodol agos.

**Atodaid B**

**Trefniadau Cysylltu:-**

1. **Cais am Eiddo o'r newydd/neu angen gwneud cais i drosglwyddo i eiddo arall**:-i wneud cais am eiddo neu i drosglwyddo bydd rhaid cysylltu â'r Tîm Opsiynau Tai 01286 685100 /OpsiynauTai@gwynedd.gov.uk. Fydd y tîm yn anfon y pecyn gwybodaeth allan i'r unigolyn/ion ac yn rhoi cyngor a Gwybodaeth am eu Hopsiynau tai yng Ngwynedd.
2. **Cymdeithasau Tai**:- Os mewn eiddo yn barod a bod y tenant mewn peryg o golli ei eiddo am be bynnag rheswm - fydd angen cwblhau ffurflen camau rhesymol yn unol â'r Cytundeb Cynhwysfawr sydd mewn lle a'i hanfon i :- tai@gwynedd.gov.uk . Fydd y tîm Atebion Tai (Digartrefedd) a'r Gymdeithas Tai yn ceisio atal yr unigolyn rhag dŵad yn ddigartref.
3. **Pobol o dan fygythiad o fod yn ddigartref**:- unigolion sydd mewn peryg o golli ei eiddo. H.y. wedi cael **rhybudd** gan ei landlord i adael yr eiddo (Eiddo Cymdeithasol neu Preifat). opsiynautai@gwynedd.gov.uk
4. **Llety a Chefnogaeth**:-Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth mewn eiddo Llety a chefnogaeth ac mewn peryg o fod yn ddigartref, yna rhaid cwblhau'r ffurflen camau rhesymol yn unol â'r protocol cyd-weithio a'i hanfon i tai@gwynedd.gov.uk . Fydd y tîm Atebion Tai (digartrefedd) a'r darparwr Llety a Chefnogaeth yn ceisio atal yr unigolyn rhag dŵad yn ddigartref.
5. **Yn ddigartref ac yn cyflwyno i asiantaethau/cymdeithasau** :-os yw person yn ddigartref (h.y. ddim mewn eiddo Cymdeithasol/preifat na mewn Llety a chefnogaeth yna dylid cysylltu â'r tîm Atebion Tai (Digartref) 01766 771000 a gofyn am swyddfa ardal berthnasol er mwyn trefnu cyfarfod i'r unigolyn/ion. Fydd rhaid cysylltu â thîm Opsiynau Tai i gofrestru am eiddo (manylion wedi ei nodi uchod).
6. **Digartrefedd ac yn cyflwyno i'r Cyngor**:-os yw uniolgyn/ion yn troi fyny yn swyddfeydd y Cyngor (Bangor/Caernarfon/Dolgellau neu Pwllheli) yna'r Swyddogion Atebion Tai (Digartrefedd) fydd yn delio a'r achos.

**Deddf Tai (Cymru) 2014 / Housing (Wales) Act 2014**

| | |
|---|---|
| **S62** | • **Yr dyletswydd i asesu / The duty to assess** |
| **S66** | • **Y dyletswydd i atal digartrefedd / The duty to help to prevent homelessness** |
| **S73** | • **Y dyletswydd i helpu i gael llety diogel / The duty to help secure accommodation** |
| **S68** | • **Y dyletswydd i ddarparu llety dros dro (argyfwng) / The duty to provide interm (emergency) accommodation** |
| **S75** | • **Y dyletswydd i sicrhau llety – y dyletswydd \`terfynol' / The duty to secure accommodation – the \`final' duty.** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD** | **19 MAI, 2016** |
| **PWNC** | **Cytundebau Adran 106** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno sylwadau ac argymhellion is-grwp** |
| **AWDUR** | **Arwel E Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**CEFNDIR**

1. Yng nghyfarfod y pwyllgor craffu hwn ar 17 Tachwedd, 2015 derbyniwyd adroddiad cychwynnol gan yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ar Gytundebau Adran 106. Roedd hyn yn bennaf mewn ymateb i ymdeimlad ymysg rhai aelodau bod problemau sylfaenol ynghlwm â defnyddioldeb ac effeithlonrwydd y cytundebau sydd yn cael eu gosod.

2. Penderfynodd y pwyllgor "ohirio penderfyniad am y tro a bod grwp bach o gynghorwyr a swyddogion i gyfarfod gydag un neu ddau o arbenigwyr allanol i edrych ar opsiynau posib eraill ar gyfer y defnydd o Gytundebau 106 gan y Cyngor i'r dyfodol."

3. Enwebwyd y Cynghorwyr Angela Russell, Caerwyn Roberts a Stephen Churchman i eistedd ar yr is-grwp a cyfarfu'r is-grwp ar ddau achlysur. Yn y cyfarfod cyntaf, adolygwyd y defnydd o gytundebau o'r fath dros y blynyddoedd diwethaf yn ogystal â sut y mae hynny wedi newid ers y dyddiau cynnar. Yn y cyfarfod hynny, cyfarfu'r is-grwp hefyd efo dau arbenigwr ym maes morgeisi oedd yn medru cynnig gwybodaeth a sylwadau ar sail profiad ar lawr gwlad o weithio gydag unigolion a theuluoedd sydd yn wynebu'r anhawster o gael morgais a camu i fewn i'r farchnad dai. Dylid nodi bod yr is-grwp yn hynod ddiolchgar i'r arbenigwyr hyn am eu hamser a'u cyngor.

4. Cododd rhai themâu penodol yn y cyfarfod hwnnw ac, yn yr ail gyfarfod, cafwyd cyfle i wyntyllu'r themâu hynny ymhellach a thrafod cynigion ac argymhellion ymarferol ynglyn â'r defnydd o gytundebau o'r fath i'r dyfodol. Gwnaed hyn gyda swyddogion o'r Adran Rheoleiddio a Chyfreithiol a hefyd y Rheolwr Tai Strategol a ddaeth â phersbectif newydd ar yr her tai fforddiadwy a beth yw'r arfau gorau i gyfarch yr her hynny.

**CASGLIADAU**

5. Yn amlwg, roedd cyflwyno Cytundebau Adran 106 Tai Fforddiadwy yn wreiddiol yn gam a gymerwyd gan y Cyngor i geisio sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy i bobl leol a'r gobaith oedd y byddai'r gyfundrefn yn datrys y broblem i raddau helaeth iawn. Fodd bynnag, mae'r farchnad dai yn un byw sydd yn newid yn gyson a roedd y profiad a gafodd sawl darpar brynwyr o weithio efo benthycwyr wedi llesteirio dymuniad y Cyngor. Mae sawl enghraifft o'r "pyst yn cael eu symud" gyda nifer o fenthycwyr yn amharod i fenthyca mewn achosion lle roedd cytundebau yn eu lle.

6. Fodd bynnag, profodd gwaith yr is-grwp yn ddefnyddiol iawn er mwyn mynd at y ffeithiau yn ymwneud â'r defnydd o gytundebau. Yn ddigon naturiol, yr achosion hynny sydd yn dod i sylw aelodau yw'r achosion prin lle y profwyd anawsterau ac mae'n bwysig iawn bod unrhyw gynigion polisi yn seiliedig ar dystiolaeth gytbwys o'r darlun llawn.

7. Yn hynny o beth, mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn ddogfen bwysig gan ei fod yn nodi'r ceisiadau Adran 106 sydd wedi eu penderfynu rhwng 1 Ebrill, 2011 a 31 Mawrth, 2015. Dengys yr atodiad 51 o achosion lle mae Cytundebau Adran 106 wedi eu gosod (gyda 24 yn rhai lle mae cytundeb angen lleol / fforddiadwy) a hynny, i bob golwg yn llwyddiannus ac effeithiol. Rhaid cofio hefyd, mewn sawl achos, bod nifer fawr o unedau fforddiadwy yn rhan o geisiadau unigol; mae hynny'n amlwg o'r atodiad.

8. Ar sail y gwaith a'r trafod manwl yn yr is-grwp, gellir crynhoi bellach bod yr is-grwp yn glir ar y pwyntiau a ganlyn:-

- Mae cytundebau Adran 106 wedi bod yn fwy effeithiol nag y mae'r canfyddiad cyffredin amdanynt yn awgrymu.
- Nid trwy gytundeb 106 yn unig y gellir sicrhau tai fforddiadwy, gan y gall tai fod yn fforddiadwy yn syml oherwydd eu maint a'i lleoliad.
- Nid un math o gytundeb yw cytundeb Adran 106; mae nifer o wahanol fathau o gytundebau sydd yn cyfarch materion fel tai fforddiadwy, cyfraniadau ariannol tuag at addysg, trafnidiaeth, priffyrdd a thir agored.
- Mae cytundebau Adran 106 yn gweithio yn effeithiol iawn gyda datblygiadau mwy lle y gosodir cyfamod bod cyfran o eiddo mewn datblygiad mawr yn dai fforddiadwy.
- Mae'n rhaid cael cytundebau o'r fath gyda datblygiadau tu allan i ffiniau datblygu; dyma'r unig ffordd o ganiatáu a rheoli datblygiadau o'r fath
- Mae problemau gyda chytundebau yn codi gyda datblygiadau bach, unigol a datblygiadau hunan-adeiladu
- Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn barod i fod yn hyblyg wrth drafod amodau o fewn y cytundebau gyda pherchnogion a datblygwyr.
- Mae rhyw gymaint o waith wedi ei gyflawni eisoes i sicrhau cysondeb mewn cytundebau sydd yn cael eu gosod gan awdurdodau cyfagos

9. Fodd bynnag, mae'r is-grwp hefyd yn glir bod angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn ceisio cyfarch y pryderon sydd wedi eu codi yn y blynyddoedd diwethaf. Dyma'r argymhellion:-

9.1 Mae rhai materion sydd y tu hwnt i allu'r Cyngor i ymwneud â hwy, yn bennaf, yr anhawster, mewn rhai achosion, i gyfarch yr angen i wneud rhywbeth am sefyllfa rhai sydd yn hunan adeiladu a'r ffaith, hyd yma, na fu modd defnyddio amodau "prif breswylfa". Gofynnir i'r Aelod Cabinet bwyso am symud gwleidyddol ar y materion yma er mwyn ymateb i'r her o geisio sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy i bobl leol.

9.2 Mae'n amlwg mai trafod buan gyda'r Cyngor yw'r ffordd gorau i osgoi problemau wrth i ddatblygiadau fynd yn eu blaenau. Gofynnir i'r Aelodau Cabinet perthnasol sicrhau felly bod yr Adran a'r Gwasanaeth Tai yn edrych ar ffyrdd arloesol o sicrhau bod datblygwyr yn gwybod hynny, trwy'r broses "Cyngor cyn Gwneud Cais" a dulliau eraill, fel sesiynau codi ymwybyddiaeth.

9.3 Mae angen annog datblygwyr llai (llai na 10 uned) i addasu eu cynlluniau i ymateb i anghenion cymunedol fel amrywiaeth, maint a nifer llofftydd. Gofynnir i'r Aelod Cabinet sicrhau bod y gwaith hyrwyddo a chefnogi yma yn parhau ac yn datblygu.

9.4 Mae'n medru bod yn ddryslyd i ddatblygwyr a benthycwyr bod amodau gwahanol yn cael eu gorfodi gan awdurdodau cyfagos. Fodd bynnag, awgrymir na ddylid gwanio ar ein amodau ni yn unig er mwyn cael cysondeb ac eraill. Gofynnir felly i'r Aelod Cabinet sicrhau bod ymdrechion yn parhau i sicrhau cysondeb yn y math o gytundebau a thermau a ddefnyddir os nad yn yr union amodau lleol.

9.5 Mae angen parhau i bwyso ar y benthycwyr i wella yn eu parodrwydd i gynnig morgeisi lle mae amodau Adran 106 wedi eu gosod. Gofynnir i'r Aelod Cabinet ddefnyddio pob arf posib, yn cynnwys pwysau gan Gymdeithas Llywodraeth Cymru a phwysau gwleidyddol drwy'r Cynulliad i geisio sicrhau hynny.

9.6 Mae angen amlygu ymhellach barodrwydd y Cyngor i fod yn hyblyg, yn arbennig wrth edrych ar hen gytundebau Adran 106 a osodwyd pan oedd natur y farchnad dai yn wahanol iawn. Gofynnir i'r Aelod Cabinet sicrhau bod gwybodaeth am y parodrwydd hynny i fod yn hyblyg yn cael ei ledaenu.

10. Gwahoddir y pwyllgor i ystyried casgliadau'r is-grwp a'r argymhellion drafft i'r Aelod Cabinet

# Ceisiadau 106 wedi eu penderfynu / 106 Applications decided upon (01/04/2011 - 31/03/2015)

| Rhif Cais /Application number | Swyddog Achos / Case Officer | Math o gais / Application type | Dyddiad Cofrestru /Registered date | Lleoliad / Location | Disgrifiad o'r Datblygiad / Development description | Dyddiad penderfyniad /Decision date | Math o benderfyniad /Decision type | Lefel penderfyniad / Decision level | Cyn cais / Pre-App | A106 / S106 | Dyddiad Llofnodi Cytundeb / Agreement Signed Date |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C05D/0153/46/LL | William Elfyn Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 30/03/05 | Rhan Cae / Part Field - 2128, Towyn, Tudweiliog, Pwllheli, LL538PD | YCHWANEGU 48 O BEBYLL / CARAFANAU TEITHIOL I SAFLE CARAFANAU PRESENNOL AC ADDSSU | 17/03/15 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 28/10/14 |
| C06D/0560/34/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 09/10/06 | Ynys Hwfa, Clynnogfawr, Caernarfon, LL545DF | ADDASU AC ADEILADU ESTYNIAD I DY ANNEDD PRESENNOL AC ADEILADU MODURDY-STORFA .. | 29/03/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 14/03/07 |
| C06D/0703/42/AM | Aneurin Mon Parry | Amlinell/Outline | 04/01/07 | Safle Capel Caersalem, Lon Terfyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd | DATBLYGIAD TRIGIANNOL / RESIDENTIAL DEVELOPMENT | 09/08/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 02/08/12 |
| C07D/0180/37/LL | Aneurin Mon Parry | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 22/03/07 | Beudy, Elernion, Trefor, Caernarfon, Gwynedd, LL545HN | ADDASU ADEILAD ALLANOL YN DY ANNEDD / CONVERSION OF OUTBUILDING INTO DWELLING .. | 04/05/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | No | Yes | 07/03/08 |
| C08D/0257/40/AM | Gwenan Jones | Amlinell/Outline | 12/06/08 | Tir Ger / Land Nr. - Dolydd, Y Ffor, Pwllheli, Gwynedd | ADEILADU 4 TY ANNEDD UNLLAWR A 5 TY ANNEDD DEULAWR GYDA 3 O'R TAI DEULAWR YN DAI | 16/04/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Yes | 12/03/13 |
| C09A/0269/17/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 06/07/09 | PENGROESLON, CARMEL, CAERNARFON, GWYNEDD | TROSI ADEILAD AC ESTYNIADAU SYLWEDDOL ER MWYN CREU EIDDO UNLLAWR 4 LLOFT, ESTYNI | 05/04/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 16/03/11 |
| C09A/0396/18/AM | Idwal Williams | Amlinell/Outline | 26/08/09 | TIR GER / LAND NEAR, Teras Fictoria / Victoria Terrace, Deiniolen, Caernarfon, Gwynedd, LL553LT | DATBLYGIAD PRESWYL A MYNEDIAD / RESIDENTIAL DEVELOPMENT AND ACCESS | 16/05/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 13/05/14 |
| C09A/0412/26/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 27/08/09 | LLAIN O DIR CYFAGOS / LAND ADJACENT TO, HEN GAPEL, FFORDD WAUNFAWR, CAEATHRO, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 2SS | ADEILADU 12 O DAI / ERECTION OF 12 DWELLINGS | 24/06/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 24/06/14 |
| C09A/0518/16/AM | Glyn Llewelyn Gruffudd | Amlinell/Outline | 15/12/10 | Tir Ger / Land Near Pentwmpath, Llandygai, Bangor, LL574LG | CAIS AMLINELLOL I GODI 15 ANNEDD / OUTLINE APPLICATION FOR THE ERECTION OF 15 | 26/09/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Unknown | 02/08/12 |
| C09D/0195/45/LL | Aneurin Mon Parry | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 19/05/09 | Madoc Buildings, Lon Dywod, Pwllheli, Gwynedd, LL535HP | DYMCHWEL ADEILADAU PRESENNOL AC ADEILADU 5 TY ANNEDD TERAS TRI LLAWR ... | 08/03/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 08/02/10 |
| C09D/0281/35/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 10/07/09 | St Deiniols Church, Stryd Fawr, Criccieth, Gwynedd, LL520HQ | DIWYGIO CYTUNDEB 106 ER DARPARU 7 UNED FFORDDIADWY A 14 UNED MARCHNAD AGORED / A | 11/09/13 | Caniatawyd yn Ddi-Amodol/Approved without Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Yes | 21/08/13 |
| C09D/0389/40/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 17/11/09 | Sychnant, Pentre Uchaf, Pwllheli, LL538EJ | ADDASU MODURDY SYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO FEL CANOLFAN PROFI CERBYDAU YN DY ANNE | 19/07/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 07/07/11 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C10A/0161/13/AM | Glyn Llewelyn Gruffudd | Amlinell/Outline | 19/03/10 | Brig y Nant , Ffordd Coetmor Newydd / Coetmor New Road, Bethesda, Bangor, LL573NN | CAIS AMLINELLOL I GODI 6 TY AR WAHAN A CHREU FFORDD STAD NEWYDD / OUTLINE | 06/11/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 05/11/14 |
| C10A/0206/13/AM | Glyn Llewelyn Gruffudd | Amlinell/Outline | 09/04/10 | Grey Garage , Lon Newydd Coetmor / Coetmor, New Road, Bethesda, Bangor, LL573DT | ADNEWYDDU CAIS AMLINELLOL C07A/0052/13/AM I DDYMCHWEL YR ADEILAD PRESENNOL A | 15/10/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 07/08/12 |
| C10A/0442/18/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 23/08/10 | Tir ger / Land at, Pen Pwll Coch, Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd, LL553BS | ADEILADU 2 DY / ERECTION OF 2 DWELLINGS | 26/08/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 04/08/11 |
| C10D/0017/33/LL | William Elfyn Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 13/01/10 | Rhan O Gae Ger / Part Of Field Nr. - Penboncyn, Boduan, Pwllheli, Gwynedd, LL536DR | TY UNLLAWR FFORDDIADWY YNGHYD A TANC SEPTIG A PHWLL DRAENIO / SINGLE STOREY AFFO | 15/05/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 20/02/11 |
| C10D/0439/33/LL | William Elfyn Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 16/11/10 | Mathan Isaf, Rhydyclafdy, Pwllheli, LL538TT | TY I WEITHIWR AMAETHYDDOL / DWELLING FOR AGRICULTURAL WORKER | 19/10/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 08/09/11 |
| C11/0047/43/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 14/01/11 | Ysgubor, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd | NEWID DEFNYDD ADEILAD ALLANOL YN DY ANNEDD FFORDDIADWY AC ADEILADU PORTH I'R BLA | 16/09/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 01/09/11 |
| C11/0051/16/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 10/01/11 | Adeilad allanol ger / Outbuilding adj to, 1 a 2, Frondeg, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL574PA | TROSI ADEILADAU AMAETHYDDOL / CONVERSION OF AGRICULTURAL BUILDING | 22/11/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 14/11/11 |
| C11/0170/42/AM | Gwenan Jones | Amlinell/Outline | 22/02/11 | Maes Twnti, Lon Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL536PW | DATBLYGIAD TRIGIANOL O BEDWAR TY GYDA DAU OHONYNT YN DAI FFORDDIADWY / RESIDENTI | 14/02/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 03/02/12 |
| C11/0173/26/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 21/02/11 | Tir tu cefn / Land at rear of, Min y Grug, Waunfawr, Gwynedd, LL554YS | NEWID DEFNYDD / CHANGE OF USE | 06/12/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 17/11/11 |
| C11/0378/45/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 13/05/11 | Tir Ger / Land Nr. - Heol Hamdden, Pwllheli, Gwynedd | DATBLYGIAD PRESWYL O 8 TY ANNEDD TAI'R YSTAFELL WELY / RESIDENTIAL DEVELOPMENT O | 25/07/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Yes | 31/01/12 |
| C11/0542/17/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 13/06/11 | Crud Y Nant, Bethesda Bach, Caernarfon, Gwynedd, LL545SF | ADEILADU SIED AMAETHYDDOL / ERECTION OF AN AGRICULTURAL SHED | 03/02/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 31/01/12 |
| C11/0661/43/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 18/08/11 | Plas Pistyll and Pistyll Caravan Park, Pistyll, Pwllheli, LL536LR | Demolition of Plas Pistyll and re-development to form 20 self catering holiday u | 23/08/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Unknown | 22/08/12 |
| C11/0755/44/AM | Cara Owen | Amlinell/Outline | 06/09/11 | Gardencraft, Stryd Fawr, Tremadog, Porthmadog, LL499RD | CAIS AMLINELLOL AR GYFER DYMCHWEL YR ADEILAD PRESENNOL A CHODI 9 ANNEDD / OUTLIN | 19/12/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 10/09/12 |
| C11/0840/42/RC | Cara Owen | Rhwymedigaeth Cyfreithiol/Legal Oligatn | 22/09/11 | 5, Maes Terfyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL536EQ | Cais i ddileu amod | 30/01/12 | Caniatawyd yn Ddi-Amodol/Approved without Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Unknown | 17/01/12 |
| C11/0862/44/AM | Keira Ann Sweenie | Amlinell/Outline | 21/10/11 | Tir Ger / Land Nr. - Cefn Y Gader, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd | ADNEWYDDU CANIATAD CYNLLUNIO C05D/0444/44/AM AR GYFER CODI 9 TY / RENEWAL OF PLA | 01/10/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 21/09/12 |
| C11/0888/34/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 10/10/11 | Derwin Fawr, Garndolbenmaen, LL519LZ | CAIS AM LEOLIAD DIWYGIEDIG AR GYFER CODI TYRBIN GWYNT 50KW AR DWR 24.6 MEDR, CYF | 15/12/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 13/12/11 |
| C11/0959/23/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 10/11/11 | Hen Ysgol Glan Moelyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PG | To erect seven dwellings on an old school site. This will consist of six semi-de | 19/12/11 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Unknown | 29/02/12 |
| C11/1056/37/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 13/04/12 | Tyddyn Drain, Llanaelhaearn, Caernarfon, LL545AD | NEWID DEFNYDD AC YMESTYN ADEILAD ALLANOL I FOD YN DY ANNEDD A CADW GWAITH MEWNLE | 05/07/12 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 27/06/12 |
| C11/1077/16/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 25/11/11 | Plas Y Coed, Bangor, Gwynedd, LL574HN | NEWID DEFNYDD A CHODI 17 O DAI / CHANGE OF USE AND ERECTION OF 17 HOUSES | 17/06/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 10/09/13 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C11/1144/40/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 12/12/11 | Tir ger / Land by, Pengamfa Fawr, Rhosfawr, Pwllheli, Gwynedd, LL536UU | TY GROMEN FFORDDIADWY / AFFORDABLE DORMER DWELLING | 03/12/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 28/11/13 |
| C11/1180/34/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 09/02/12 | Lleuar Fawr, Llanllyfni, Caernarfon, LL546ST | CAIS I DROSI ADEILAD AMAETHYDDOL SEGUR I FFURFIO UN TY | 08/07/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 20/05/13 |
| C12/0308/12/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 01/03/12 | Bryn Gloch Caravan & Camping Park, Betws Garmon, Caernarfon, LL547YY | AIL-LEOLI LLECYNNAU ODDI FEWN Y PARC / RE-LAYOUT OF PITCHES ON EXISTING PARK | 20/01/15 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Yes | 16/04/14 |
| C12/0356/25/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 12/03/12 | Fferm y Wern, Lon y Wern, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL574BY | TROSI AC YMESTYN ADEILAD ALLANOL PRESENNOL I ANNEDD FFORDDIADWY / CONVERSION AND | 04/07/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 02/07/13 |
| C12/0441/39/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 03/04/12 | Riverside Hotel & Restaurant, Abersoch, Pwllheli, LL537HW | DYMCHWEL GWESTY AIL DDATBLYGU PRESWYL / DEMOLISH HOTEL AND REDEVELOP SITE | 06/12/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 05/12/13 |
| C12/0476/35/AM | Cara Owen | Amlinell/Outline | 18/04/12 | Station Bakery, High Street, Criccieth, LL520RN | CAIS AMLINELLOL AR GYFER DYMCHWEL ADEILADAU PRESENNOL A CODI 7 UNED PRESWYL / OU | 17/10/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 08/10/13 |
| C12/1123/22/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 14/08/12 | Tir Ger / Land Nr. - Tir Capel Bach, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd | ADEILADU 6 TY ANNEDD DEULAWR (2 FFORDDIADWY) YNGHYD A FFORDD NEWYDD WASANAETHOL / CONSTRUCTION OF 6 TWO STOREY DWELLING HOUSES (2 AFFORDABLE) TOGETHER WITH NEW SERVICE ROAD | 26/11/12 | Caniatawyd yn Ddi-Amodol/Approved without Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 01/10/15 |
| C12/1347/25/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 26/10/12 | Tir ger / Land Nr. - Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd | 245 UNEDAU BYW (86 UNED FFORDDIADWY) / 245 No. LIVING UNITS (86 AFFORDABLE UNITS | 02/09/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 06/02/14 |
| C12/1372/42/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 12/11/12 | Nefyn Allotments, Stryd Fawr, Nefyn, Gwynedd, LL536HD | ADEILADU 10 TY / CONSTRUCTION OF 10 DWELLINGHOUSES | 29/07/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 28/11/13 |
| C13/0002/14/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 04/01/13 | Minmanton, Lon Parc, Caernarfon, LL552HP | ADEILAD NEWYDD I GYNNWYS 6 UNED PRESWYL / NEW BUILDING CONTAINING 6 RES. UNITS | 20/05/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 08/10/13 |
| C13/0070/22/LL | Cara Owen | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 11/02/13 | Tir Bach, Llanllyfni, Caernarfon, LL546SB | NEWID DEFNYDD ADEILAD ALLANOL YN DY / CHANGE OF USE OF OUTBUILDING TO A DWELLING | 16/05/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 13/05/13 |
| C13/0203/11/LL | Glyn Llewelyn Gruffudd | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 25/02/13 | Former Victoria Building Land, Plas Llwyd Terrace, Bangor, Gwynedd, LL57 1UB | 2 adeilad llety myfyrwyr 36 llofft/ 2 building student accommodation | 04/09/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Yes | 29/08/13 |
| C13/0373/23/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 04/04/13 | Tir Ger / Land Near. - Bryn Cwil, Ceunant, Caernarfon, LL554RP | TY FFORDDIADWY / AFFORDABLE DWELLING | 25/07/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 19/07/13 |
| C13/0398/45/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 01/05/13 | CYN LYS YNADON, TROED YR ALLT, PWLLHELI, GWYNEDD, LL535ED | 6 TY A LLEFYDD PARCIO / 6 DWELLINGS AND PARKING | 07/11/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 27/10/14 |
| C13/0652/46/LL | Medi Emlyn Davies | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 25/06/13 | Tir gyferbyn / Land adjacent Tan y Bryn, Tudweiliog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8NB | Dau dy fforddiadwy deulawr / Two affordable two storey dwellings | 31/07/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 02/07/14 |
| C13/0676/46/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 01/07/13 | Tir ger/Land near Bryn Haul, Dinas, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8UB | Adeiladu ty unllawr fforddiadwy / construction of single storey affordable house | 17/04/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 15/04/14 |
| C13/0736/39/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 15/07/13 | Harbour Hotel, Abersoch, Pwllheli, LL537HR | 13 ANNEDD YN CYNNWYS 2 DY FFORDDIADWY/13 DWELLINGS INCLUDING 2 AFFORDABLE HOUSES | 25/11/13 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 01/04/14 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C13/0810/14/LL | Idwal Williams | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 13/08/13 | Ysbyty Bryn Seiont Hospital, Pant Road, Caernarfon, LL552YU | Darparu 16 uned breswyl gofal ychwanegol / Provide 16 extra care residential uni | 21/01/14 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | No | Unknown | 19/01/14 |
| C13/1227/33/RC | Gwenan Jones | Rhwymedigaeth Cyfreithiol/Legal Oligatn | 05/12/13 | Mathan Uchaf, Boduan, Pwllheli, LL538TU | Diwygio cytundeb 106 / Variation of 106 agreement - C06D/0408/33/LL | 01/04/14 | Caniatawyd yn Ddi-Amodol/Approved without Conditions | Dirprwyedig/Delegated | Yes | Yes | 26/03/14 |
| C14/0172/39/LL | Gwenan Jones | Llawn - Cynllunio/Full - Planning | 04/03/14 | Tir Ger / Land Nr. - Cornwall Estate, Mynytho, Pwllheli, Gwynedd, LL537RH | 9 bynglo gromen fforddiadwy / 9 affordable dormer bungalows | 02/03/15 | Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Conditions | Pwyllgor/Committee | Yes | Yes | 16/06/15 |
| | | | | | | | | | | | |
| Rhai lle mae cytundeb angen lleol / fforddiadwy arnynt / Ones where there is a local need / affordability agreement | | | | | | | | | | | |

**Gweithredu Argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach**

**Diweddariad Aelod Cabinet (Mai 2016)**

Ym mis Tachwedd 2015 cyflwynwyd adroddiad yn nodi bwriadau'r Aelod Cabinet o ran ymateb i argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16.

Rhannwyd yr argymhellion i dri chategori:

- gweithredu yn syth,
- cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau/ partneriaid eraill er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb gweithredu'r argymhellion,
- peidio ystyried yr argymhellion hyn am y tro

Dyma ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion.

(Wrth gyfeirio at argymhellion penodol, defnyddir y rhifau sydd ar eu cyfer yn y 'Crynodeb o'r Argymhellion' a geir ar dudalennau 7 ac 8 o'r adroddiad.)



**Gweithredu'n syth**

| **Argymhelliad** | | **Beth sydd wedi digwydd a phryd** | **Effaith y gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 5 | Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb | **Mae geiriad y Polisi Cludiant Ôl-16 Oed wedi cael ei ddiweddaru** er mwyn codi un pris yn unig ar gyfer Tocyn Teithio 16+, a thrwy hynny, diddymu unrhyw wahaniaethu mewn pris wrth deithio i ysgol neu goleg lleol (dalgylch) neu i unrhyw sefydliad sydd wedi'i nodi yn y polisi. Gosodir un pris yn £100 y tymor. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016.** | Bydd codi un pris yn unig a dileu'r cysyniad o ddalgylch yn sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau sydd ar gael i bawb, boed yn ddisgyblion ysgol neu fyfyrwyr coleg, lle bynnag bônt yn byw. |
| 6 | Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr | **Mae geiriad y Polisi Cludiant Ôl-16 Oed wedi cael ei ddiweddaru** er mwyn codi un pris yn unig ar gyfer Tocyn Teithio 16+, a thrwy hynny, diddymu unrhyw wahaniaethu mewn pris wrth deithio i ysgol neu goleg lleol (dalgylch) neu i unrhyw sefydliad sydd wedi'i nodi yn y polisi. Gosodir un pris yn £100 y tymor. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016.** | Mae geiriad newydd y polisi yn diddymu'r cysyniad o ddalgylch o ran cludiant ôl-16. Bydd hyn yn caniatáu i'r dysgwyr fynychu'r sefydliad mwyaf addas iddynt heb i amrywiaeth yng nghost Tocyn Teithio 16+ orfod fod yn ystyriaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 12c Dylid, ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu, gosod un pris i bawb. | **Mae geiriad y Polisi Cludiant Ôl-16 Oed wedi cael ei ddiweddaru er mwyn codi un pris yn unig ar gyfer Tocyn Teithio 16+**. Gosodir un pris yn £100 y tymor. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016.** | Mae geiriad newydd y polisi yn gosod un pris i bawb. |
| 9 Mae angen sicrhau cyd-ddealltwriaeth y darparwyr addysg bellach a Galw Gwynedd o Bolisi Cludiant Ôl-16 Cyngor Gwynedd | **Mae geiriad y Polisi Cludiant Ôl-16 Oed wedi cael ei ddiweddaru** er mwyn codi un pris yn unig ar gyfer Tocyn Teithio 16+, a thrwy hynny, diddymu unrhyw wahaniaethu mewn pris wrth deithio i ysgol neu goleg lleol (dalgylch) neu i unrhyw sefydliad sydd wedi'i nodi yn y polisi. Gosodir un pris yn £100 y tymor. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016.** | Mae geiriad ac amodau'r polisi newydd yn llawer symlach ac yn mynd i fod o gymorth er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth y darparwyr addysg bellach a Galw Gwynedd o'r polisi. |
| 10 Dylid, yn ysbryd Ffordd Gwynedd, sicrhau bod cwestiynau defnyddwyr yn cael eu hateb gan eu cyswllt cyntaf | **Mae geiriad y Polisi Cludiant Ôl-16 Oed wedi cael ei ddiweddaru** er mwyn codi un pris yn unig ar gyfer Tocyn Teithio 16+, a thrwy hynny, diddymu unrhyw wahaniaethu mewn pris wrth deithio i ysgol neu goleg lleol (dalgylch) neu i unrhyw sefydliad sydd wedi'i nodi yn y polisi. Gosodir un pris yn £100 y tymor. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016.** | Mae geiriad ac amodau'r polisi newydd yn llawer symlach ac yn mynd i fod o gymorth er mwyn sicrhau bod cwestiynau defnyddwyr yn cael eu hateb gan eu cyswllt cyntaf. |
| 11 Mae angen i Gyngor Gwynedd a'r darparwyr addysg ôl-16 gydweithio'n agos i ddarparu gwybodaeth gyson, berthnasol a phwrpasol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol ac addas sydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb | **Mae'r deunydd cyfathrebu sydd yn ymwneud â'r Polisi Cludiant Ôl-16 yn cael ei adolygu er mwyn cyd-fynd â geiriad y polisi newydd ac unrhyw drefniadau newydd eraill (boed hynny ar y wefan, gohebiaeth i ddisgyblion ysgol, sgript gweithwyr Galw Gwynedd, ayyb).** | Y gwaith hwn wedi'i gychwyn. Taflen wedi'i gyflwyno i ddisgyblion 6ed dosbarth, a thaflen ar gyfer blwyddyn 11 cyfredol ar fin cael ei ryddhau. |
| 12ch Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd. | Ystyrir bod argymhelliad 12ch yn debyg iawn i argymhelliad 5 (uchod), a bod dileu'r cysyniad o ddalgylch yn cyfrannu tuag at weithredu'r argymhelliad hwn. **Daw'r polisi newydd yn weithredol ar 1 Medi 2016**. | Bydd codi un pris yn unig a dileu'r cysyniad o ddalgylch yn sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau sydd ar gael i bawb, boed yn ddisgyblion ysgol neu fyfyrwyr coleg, lle bynnag bônt yn byw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Dylid adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth gyda'r amrywiol sefydliadau i drefnu gwasanaeth pwrpasol | Ystyrir bod argymhelliad 3 ar waith yn barhaol. | Mae pob partner yn cyfrannu at wella'r ddarpariaeth sydd ar waith. |

**Cydweithio yn y tymor byr/canolig gyda gwasanaethau/ partneriaid eraill er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb gweithredu'r argymhellion**

Mae trafodaethau rhagarweiniol wedi'u cynnal gyda Grŵp Llandrillo-Menai mewn perthynas ag argymhellion 1, 12b, 5, 7 a 12dd.



| **Argymhelliad** | | **Beth sydd wedi digwydd a phryd** | **Effaith y gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 1 | Er gwella manteision i'r dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd, lleihau prosesau ac yn ysbryd Ffordd Gwynedd, dylid cydweithio'n agosach ac i negodi efo Grŵp Colegau Llandrillo Menai i fod yn asiant i Gyngor Gwynedd | Mae trafodaeth rhagarweiniol wedi'i chynnal efo cynrychiolwyr Coleg Llandrillo-Menai mewn perthynas â'r syniad iddyn nhw weithredu fel asiant. **Mae'r Coleg , mewn egwyddor, yn fodlon ystyried gweinyddu'r cynllun ar gyfer myfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor.**<br><br>**Mae cyfarfod 'blynyddol' nesaf gyda'r Coleg wedi'i raglennu ar gyfer 21ain Mehefin** | Mae ffigurau niferoedd a chostau cynhyrchu'r tocynnau teithio yn cael eu darparu i'r Coleg. |
| 12b | Ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu argymhellir y dylid ystyried cyfuniad o opsiynau. Opsiynau 3, 6 a 7 - newid i system tocynnau*, **trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai.*** | **Does dim diddordeb gan y coleg mewn trefnu'r cludiant.**<br><br>O ran trosglwyddo gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Goleg Llandrillo-Menai, gweler 1 uchod. | Gweler 1 uchod o ran trosglwyddo gweinyddiaeth tocynnau cludiant i'r coleg. |
| 5 | Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb | Trafodwyd y newid geiriad polisi arfaethedig efo cynrychiolwyr Coleg Llandrillo-Menai. Nid oedd gwrthwynebiad i'r egwyddor o ddileu'r cysyniad o ddalgylch na chodi un pris ar bawb.<br><br>Wedi pasio'r polisi newydd yn y Cabinet, derbyniwyd llythyr gan Gyngor Coleg Pwllheli yn cefnogi safbwynt myfyrwyr yn erbyn maint y codiad ym mhris y tocyn a'r diffyg hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r tocyn. | **Bydd Fforwm Defnyddwyr yn cael ei sefydlu (i gynnwys cynrychiolaeth o'r myfyrwyr) er mwyn trafod amodau'r Tocyn Teithio 16+. Ceisir rhaglennu cyfarfod o'r Fforwm Defnyddwyr cyn diwedd tymor yr haf.** |
| 7 | Mae angen i'r darparwyr addysg ôl-16 | Trafodwyd yr argymhelliad hwn efo cynrychiolwyr | Rydym yn disgwyl ymateb swyddogol gan y coleg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gydweithio i roi systemau yn eu lle i gasglu data er darganfod os ydi costau teithio yn arwain i fyfyrwyr ddisgyn allan o addysg bellach | Coleg Llandrillo-Menai.<br><br>**Mae'r Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd a Môn Consortiwm yn chwilio i ddefnyddio holiadur Llais y Dysgwyr i gasglu barn myfyrwyr am gostau teithio ôl-16**. Bydd hwn yn gallu casglu barn myfyrwyr cyfredol, ond nid ydym, hyd yma, wedi adnabod dull o gasglu niferoedd y rhai sydd wedi gadael addysg ôl-16 oherwydd costau teithio. | mewn perthynas â'r argymhelliad.<br><br>Gellir cael barn myfyrwyr am gostau teithio ôl-16. |
| 12dd | Dylid parhau gyda'r ymarfer da o'r ddarpariaeth athrawon / darlithwyr peripatetig ac adeiladu ar y sylfaen o weithio mewn partneriaeth a'i adolygu'n rheolaidd. | Trafodwyd yr argymhelliad hwn efo cynrychiolwyr Coleg Llandrillo-Menai. | Rydym yn disgwyl ymateb swyddogol gan y coleg mewn perthynas â'r argymhelliad. |
| 4 | Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol sydd yn ystyried modd y dysgwyr/myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant | Ystyrir bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) eisoes yn cyfrannu at weithredu argymhelliad 4. Fodd bynnag, codwyd y mater gyda chynrychiolydd Grŵp Llandrillo-Menai gyda'r bwriad o leihau'r amser a gymerir i sicrhau taliad cyntaf y LCA.<br>**Mae'r Adran Addysg wedi sefydlu system lle y gellir gwneud rhandaliadau misol (yn hytrach na gorfod talu un swm ar ddechrau'r tymor)**.<br><br>**Mae'r system talu trwy gyfrwng Debyd uniongyrchol yn ei le ers Pasg 2016.** | Rydym yn disgwyl ymateb swyddogol gan y coleg mewn perthynas â'r argymhelliad. |

Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal gyda'r Uned Gludiant Integredig mewn perthynas ag argymhelliad 2 a 12b.

| Argymhelliad | | Beth sydd wedi digwydd a phryd | Effaith y gweithredu |
|---|---|---|---|
| 2 | Dylid adolygu'r Polisi Cludiant Ôl-16 i sicrhau Polisi addas a phwrpasol i gyfarch gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Canllaw Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol | **Un agwedd o argymhelliad 2 oedd cael mwy o hyblygrwydd yn yr amseroedd teithio i ddysgwyr/myfyrwyr. Mae hwn wedi bod yn gais cryf gan fyfyrwyr.** | Mae dysgwyr/myfyrwyr sydd yn defnyddio llwybrau cludiant cyhoeddus o dan dendr i'r Cyngor ar eu Tocyn Teithio 16+ yn parhau i gael teithio ar unrhyw amser ar y llwybrau rheiny, ond mae defnyddio Tocyn Teithio 16+ ar y llwybrau cludiant cyhoeddus |

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 2014 | Er gwybodaeth, mae dysgwyr/myfyrwyr sydd yn defnyddio llwybrau cludiant cyhoeddus o dan dendr i'r Cyngor ar eu Tocyn Teithio 16+ yn barod yn cael teithio ar unrhyw amser ar y llwybrau rheiny. Fodd bynnag, dydy hynny ddim yn wir ar gyfer cludiant cyhoeddus masnachol. Mae defnyddio Tocyn Teithio 16+ ar y llwybrau cludiant cyhoeddus masnachol wedi'i gyfyngu i siwrne benodol ar ddechrau'r dydd a siwrne benodol ar ddiwedd y dydd (fel sydd ar fysiau coleg pur).<br><br>**Mae'r mater o sicrhau hyblygrwydd o ran amseroedd teithio wedi'i godi gyda'r Uned Gludiant, ond does dim cytundeb hyd yma ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen o sicrhau amseroedd mwy hyblyg heb ychwanegu at gostau'r ddarpariaeth.** | masnachol yn parhau i fod wedi'i gyfyngu i siwrne benodol ar ddechrau'r dydd a siwrne benodol ar ddiwedd y dydd (fel sydd ar fysiau coleg pur).<br><br>**Bydd Fforwm Defnyddwyr yn cael ei sefydlu (i gynnwys cynrychiolaeth o'r myfyrwyr) er mwyn trafod amodau'r Tocyn Teithio 16+. Ceisir rhaglennu cyfarfod o'r Fforwm Defnyddwyr cyn diwedd tymor yr haf.** |
| 12b Ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu argymhellir y dylid ystyried cyfuniad o opsiynau. Opsiynau 3, 6 a 7 - ***newid i system tocynnau***, trosglwyddo gwasanaeth cludiant i'r coleg a gweinyddiaeth tocynnau cludiant coleg i Grŵp Colegau Llandrillo Menai. | Gweler sylwadau ar 12b uchod. | Gweler sylwadau ar 12b uchod. |



**Peidio ystyried yr argymhellion hyn am y tro**

| Argymhelliad | | Beth sydd wedi digwydd a phryd | Effaith y gweithredu |
|---|---|---|---|
| 8 | Dylid gosod mesuryddion gofal cwsmer pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth | Dydy'r adnoddau ddim ar gael i weithredu ar hwn ar hyn o bryd. | |
| 12d | Dylid darparu benthyciadau ariannol i brynu cerbyd / beic modur yn ogystal er hwyluso mynediad at addysg bellach a hyfforddiant. | Does dim arian ar gael i'w roi ar fenthyg ar hyn o bryd. | |
| | | | |